CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 291 - 60c
Mawrth 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Clybiau Ffermwyr Ieuainc

Tudalen 2 a 14

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc



Tudalen 11

Pencampwyr Gymnasteg y Sir

Tudalen 5

"Beirdd a Llenorion, Athletwyr o fri"

Enillwyd y Gadair yn Eisteddfod yr Ysgol Gyfun gan Carwen Richards; yn ail Elliw Dafydd a Llion Thomas yn drydydd.

Enillydd y Goron am gerdd Saesneg oedd Elinor Jones; yn ail Libby Jones ac Adam King yn drydydd.

Eileen Rees a'i tharian, hyfforddwyr Caryl Davies, Jan Jones ac aelodau ieuenctid Clwb Rhedeg Sarn Helen. Adroddiad ar dudalen 13.

Eisteddfod Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Capteiniaid, Is-Gapteniaid a phrif gystadleuwyr Tŷ Dulas wedi eu llwyddiant yn ennill Eisteddfod yr Ysgol Gyfun. Yn y cefn Gwawr Hatcher yn ennill Cwpan y Cerddor Gorau ac ar y dde John Janes yn ennill Cwpan yr unigolyn â'r marciau uchaf am waith cartref.

Enillwyd gwobr yr actor gorau yn Eisteddfod yr Ysgol Gyfun gan Owain Davies.

Clybiau Ffermwyr Ieuainc

Hanner Awr Adloniant aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann

Mr a Mrs Elfyn Morgans, Llywyddion Clwb Llanwenog yn cyflwyno cwpanau i'r aelod hŷn sef Enfys Hatcher ac i Carwyn Davies, aelod iau.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai

Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu
Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi ac rheoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rif Cofrestru 308505

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?
Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?
Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mawrth:	Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen	480526
Ebrill	Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin	01545571234
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Prinder – byth!

Fel llawer ohonoch, fel teulu rydym yn hoff o wylio adar, a thros y gaeaf eu bwydo hefyd. Pwy sy'n dweud fod 'adar yr eira' yn prinhau? Mae gennym fataliwn ohonynt, yn clirio bwyd o fewn munudau iddo gael ei roi allan. Roedd gennyf ers blynyddoedd fwrdd adar gyda rhwystr o'i amgylch i atal adar mawr rhag dwyn y bwyd. Roedd y plant yn ei alw yn 'Alcatraz'. Cawsom un ymwelydd annisgwyl iawn adeg yr eira eleni sef 'Gïach Bach' – 'Jack Snipe'. Diau fod y gwlypdir lle'i ceir yn fwyaf aml wedi rhewi, ac yntau yn chwilio tiroedd gwahanol. Yn ôl 'Llyfr Adar Iolo Williams' gelwir ef hefyd yn 'Sneipen fach', 'Myniar Leiaf', neu 'Ysniten Fach'. Oes, mae na rywbeth newydd i'w ddysgu bob dydd.

Perygl tyfu gormod!

Roedd yn newyddion da pan glywais gyntaf am uno Coleg y Drindod â Choleg Dewi Sant yn Llambed. Ond erbyn heddiw mae 'na le i ofidio ychydig. Mae'r sôn am uno coleg wrth goleg a choleg yn swnio'n iawn ar bapur, ond beth fydd tynged y lleiaf o'r colegau? Pan welir nifer o ffatrïoedd yn cael eu cymryd drosodd, yr hyn a welir yn aml yw fod rhai adrannau llai yn cau a llawer iawn yn colli eu swyddi. Gobeithio fy mod yn hollol anghywir ac na all hyn fyth ddigwydd i Goleg Llambed!

Goleuadau Traffig!

Maent wedi bod yn hanfodol yn ddiweddar gyda'r holl waith i wella'r niwed ar yr heolydd wedi'r rhew a'r eira. Ond mae un set o oleuadau y tu allan i Lanybydder ers iddynt fod yn gweithio ar ffordd osgoi Llandysul a phan fu i'r craen ddymchwel a dwyn ochr y ffordd. Oes na rywun fedr roi esboniad pam fod hyn yn cymryd cymaint o amser? A ydynt am i'r goleuadau hyn ymddangos yn y 'Guinnes Book of Records' Na, rwy'n credu fod goleuadau wedi bod ar un darn o hewl yn y gogledd am ryw ddeg mlynedd yn fwy. Dyna fe, efallai y daw 'na eglurhad am yr oedi erbyn ein rhifyn nesaf!

Ie a Nage

Erbyn i'r rhifyn yma o 'Clonc' weld golau dydd i'r mwyafrif ohonoch, fe fydd y bleidlais drosodd. Gobeithio eich bod wedi defnyddio eich cyfle. Bydd llawer wedi cael ychydig o broblem wrth weld nad 'Ie' a 'Nage' oedd ar eich papur pleidleisio ond 'Ydw' a 'Nac Ydw'. Hyderaf eich bod wedi llwyddo i ddatrys hynny.

Cefais siom o weld pennawd y W.M. ar ddydd Llun yr 21ain. Hain yn dweud "Gadewch i ni gicio Plaid Cymru allan o'r Cynulliad". Beth sydd ar y mwlsyn, fe ddyle fod yn ddiolchgar am gydweithrediad rhai aelodau o'r Blaid a lwyddodd i gario'r llywodraeth yng Nghaerdydd drwy gyfnod ddigon simsan.

Hwyl!

Cloncyn.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ôl i'r eira ddadleth mae bellach yn amser paratoi ar gyfer yr Urdd. Mae'r dysgu ar gyfer yr Eisteddfod wedi dechrau a'r plant yn prysur ymarfer. Hoffwn felly ddiolch i'r plant am eu gwaith caled, i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i'r staff am eu holl amser, gan gynnwys yr hanner tymor.



Bu llawer o weithgareddau yn yr ysgol yn ystod yr hanner tymor gan gynnwys ymweliad Zoolab. Daeth y Zoolab i'r ysgol gyda chasgliad o ymlusgiaid, nadroedd a chorynnod i'r plant gael eu gweld a'u trafod. Yn rhan o'r gwaith gwyddoniaeth, ar y cyd ag Ysgol Gyfun Llanbed ac Ysgol Llanwnnen, bu plant Cyfnod Allweddol dau yn adeiladu abwydfa ar gyfer mwydod. Mae'r plant wrthi yn brysur yn astudio'r mwydod wrth iddynt deithio drwy'r abwydfa.

Mwynhaodd plant dosbarth Mr Ward gymryd rhan yn nhwrnament pêl rwyd yr urdd yn Llanbedr Pont Steffan. Da iawn chi am ymdrechu'n galed.

Hoffwn fel ysgol ddymuno'n dda i Mr Sion Mason Evans wrth iddo ddechrau yn ei swydd newydd. Rydym fel ysgol wedi cael budd mawr wrth gydweithio gydag ef wrth y llyw yn Ysgol Llanwnnen.

80oed

Dathlodd Mrs Dilys Davies, Clarence ei phenblwydd yn 80 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd.

Ymddiheuriad i Danysgrifwyr

Cysylltodd sawl un i ddweud bod rhai wedi gorfod talu'n ychwanegol wrth dderbyn CLONC drwy'r post. Pwyswyd y cyfan yn y Swyddfda Bost fel arfer. Beth aeth o'i le, pwy a wyr? Ymddiheurwn o waelod calon am yr holl drafferthion.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MAWRTH

4 CFfI Llanllwni yn cynnal cyngerdd yn Ysgol Gynradd Cae'r Felin, Pencader. Noson o adloniant yng ngofal y clwb. Croeso cynnes i bawb!
5 Sioe Ffasiynau gan 'duet' yng Ngholeg Drindod Dewi Sant, Llambed gyda phaned prynhawn. Elw tuag at MS.
8 Cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes. Cyfarfod yn Festri Aberduar am 7:30y.h. Siaradwraig wadd - Chwaer Yvonne Davies, o Ysbyty Glangwili, yn sôn am 'Insulin Pump'.
9 Gyrfa Chwist yn y Llew Du, Llanybydder am 8:00y.h. Elw tuag at elusennau lleol.
10 'Tractor Run' 9.30y.b. tan 2.00y.p. ar gae Pentref Cwmann gyda B Barbeciw i ddilyn. Elw tuag at 'Apêl Elain 2011'.
12 a 13 Ymweliad Cenhadon Cyswllt Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi.
14 Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr Pont Steffan.
16 Arwerthiant Blynyddol Capel Aberduar Llanybydder am 7.00y.h.
17 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed Cynradd yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed am 1:30y.p.
18 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed Uwchradd yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed am 1:30y.p.
26 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Cynradd ym Mhontrhydfendigaid.
28 Danfon newyddion CLONC at y golygydd.
30 Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd ym Mhontrhydfendigaid.

EBRILL

1 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhontrhydfendigaid.
1 Cyngerdd yn Ysgol Eglwys Llanllwni. Plant yr ysgol, cyn ddisgyblion ac aelodau CFfI Llanllwni yn cymryd rhan. Croeso i bawb.
2 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
3 Oedfa'r Plant a'r Bobl Ifanc yn Noddfa am 5 o'r gloch.
8 Cynhelir "Bingo" Cylch Meithrin Drefach yng Nghefnhafod Gorsgoch am 7.30y.h. Croeso.
10 Rihyrsal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed 2.30y.p. Salem Caio.
11 Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn ymweld â Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb.
25 Danfon newyddion CLONC at y golygydd.

MAI

7 Sêl Cist Car CRA Ysgol Ffynnonbedr.
7 Eisteddfod Talgarreg. Rhagor o fanylion ar 01545 590383.
8 Rihyrsal Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed - Caersalem Parcyrhos am 2.00.y.p.
9 Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
15 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed yn Noddfa am 2.30y.p. a 6.00y.h.
23 Danfon newyddion CLONC at y golygydd.

MEHEFIN

4 Sêl Cist Car CRA Ysgol Ffynnonbedr.
4 Noson 'Apêl Elain 2011' yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda bwyd, adloniant, ocsiwn a raffl. Rhagor o fanylion i ddod.
13 Taith Ddirgel Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
25 Dawns Haf Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen (mwy o fanylion i ddilyn).

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne

Enwau y mae rhai o ddarllenwyr CLONC wedi gofyn imi eu trafod sy'n cael ystyriaeth y mis hwn

Esgair-ceir

Plannwyd egin coed y Trydydd Rhyfel / Ar dir Esgeir-ceir a meysydd Tir-bach / Ger Rhydcymerau.

Dyna linellau agoriadol cerdd enwog Gwenallt lle y mae'n cofnodi enw'r fferm Esgair-ceir, lle y ganed ac y magwyd ei dad. Byddai'r Gwenallt ifanc yn treulio'i wyliau ysgol yn Rhydcymerau o bryd i'w gilydd, yn gweithio ar ffermydd gwahanol aelodau'r teulu. Yma hefyd y ceisiodd loches rhag yr awdurdodau ac yntau'n wrthwynebydd cydwybodol i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae adfeilion hen ffermdy Esgair-ceir bellach yn y goedwig ac wedi ei orchuddio bron yn llwyr gan fwsoglau.

Rwyf eisoes wedi trafod y ffurf 'esgair' mewn ysgrif arall felly canolbwyntia'r sylwadau hyn ar y ffurf 'ceir'.

Mae Rhyd-y-ceir yn enw sy'n digwydd yn gyffredin: yn Orllwyn Teifi (1548), Llanilar (1601), Parsel canol (1760) ac yn Llandysul. Yn Llanbadarn mae Nant-y-ceir ac mae Gwern-y-ceir (1768) yn Llansbyddyd, Sir Frycheiniog.

Derbynnir yn gyffredinol mai lluosog 'car', sef 'cart, sled' yw ceir. Mae Rhyd-y-ceir felly yn dynodi llecyn diogel i geirt groesi afon a dynoda Esgair-ceir 'braich o dir sy'n ddiogel i geirt ei thramwy'.

Rhyd-y-car sydd ym Merthyr yn Sir Forgannwg ac mae'r enw hwnnw'n gyffredin ar draws de Cymru a'r gororau ac yn dynodi man diogel i groesi afon neu nant. Yn Lancashire ceir enw lle, sef Cartford, ac mae hwnnw'n adlewyrchu'r enw Cymraeg 'Rhyd-y-car'.

Penrhiwpâl

Mae tair elfen y mae'n rhaid eu trafod yn yr enw hwn sef 'pen' a 'rhiw' a 'pâl' ac ystyr yr enw yw 'copa gerllaw'r ffin'. Deillia 'pâl' o'r Saesneg 'pale', sef postyn neu bolyn. Cedwir yr ystyr wreiddiol o bostyn yn y ffurf Saesneg 'impale'. Yn yr enw Penrhiwpâl, dynoda 'pâl' res o byst neu bolion ar eu sefyll yn y ddaear ac wedi'u cydgysylltu â dellt i ffurfio amddiffynfa i amgáu darn o dir hela. Mae'n dynodi ffin y tir hela. Ceir yr un elfen yn Troedrhiwpâl. Cofnodwyd yn ogystal, y ffurf Park y Pâl yn yr un ardal yn 1787 ond, hyd y gwn i, diflannodd yr enw hwnnw erbyn hyn. Yn Llangeitho, ceir lle o'r enw Pâl a hwnnw'n cyfeirio at ddarn o dir oedd wedi ei amgáu i ddiogelu anifeiliaid – ceirw, er mwyn eu hela o bosib. Ffurf gynnar (1760) ar enw'r lle oedd Pâlamheuthun sy'n awgrymu bod ein cyndeidiau'n rhoi bri arbennig ar gig carw. Ceid Pâl yn ogystal yn Rhydyfelin ond fe'i dymchwelwyd yn 1977 er mwyn lledu'r ffordd.

'An Pháil' (sy'n cyfateb i Pâl) neu 'An Pháil Shasanach' oedd enw'r Gwyddelod ar y rhan honno o Iwerddon a oedd yn cael ei rheoli gan Loegr yn ystod yr Oesoedd Canol. Mae'r enw'n dal mewn defnydd yn Iwerddon hyd heddiw yn enwedig mewn cywair beirniadol - pan dybir, er enghraifft, bod adnoddau yn cael eu dosbarthu'n annheg er mantais o bosibl i un ardal ar draul ardal arall. Mae gweithredu fel hyn yn anghymeradwy, yn enwedig pan ydych mewn ardal sydd ar ei cholled! Ac mae pob un ohonom yn gyfarwydd â'r idiom Saesneg 'beyond the pale' sy'n dynodi'r hyn sy'n annerbyniol, neu'n anghymeradwy.

Digwydd yr enw 'Pale' ar sawl lle yn ardal Llanddowror. Dyma ardal y ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ac mae'r enw 'Pale' yn adlewyrchu lleoliad hanesyddol a daearyddol y ffin hwnnw.

Penrhiwllan.

Ystyr yr enw yw 'copa a nodweddir gan eglwys'. Mae eglwys Llanfair Orllwyn lai na milltir i'r de o'r pentref. Ceir yr un enw ym mhlwyf Llanwenog (1904), yng Nghaerwedros (1851) a ger Bwlch-llan (1891).

Y tro nesaf byddwn yn trafod y ddau enw Pont-rhyd-y-groes a Rhyd-y-bont.

Ysgoloriaeth Goffa Gareth Raw Rees - Dyddiad Cau yn Prysur Agosáu!

Mae'r ysgoloriaeth yn cynnig gwobr o £2,500 i amaethwyr ifanc ddysgu am y diwydiant wrth deithio'r byd. Os ydych chi dan 30-mlwydd oed, ac yn ystyried mynd i deithio yn y DU, Ewrop neu hyd yn oed ymhellach, yna cysylltwch â NFU Cymru am ffurflen gais - hyd yn oed os ydych eisoes wedi derbyn cymorth drwy ysgoloriaeth neu gronfa arall.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Mai 2011. Bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yn y Sioe Frenhinol. Cysylltwch â Peter Howells, Cynghorwr Polisi NFU Cymru ar 01982 554200, drwy e-bost peter.howells@nfu.org.uk neu ewch i safle we www.nfu-cymru.org.uk am ffurflen gais.

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr

Cynhaliwyd cystadleuaeth gymnasteg sirol yr Urdd yn ddiweddar a daeth llwyddiant mawr i'r ysgol. Cipiodd Mari a Charlotte y wobr gyntaf am y parau, Charlotte, Mari a Samantha yn ail yn y triawd a'r tîm hefyd yn cipio'r ail wobr.

Diolch i Mr Islwyn Rees am hyfforddi'r plant a llongyfarchiadau iddo am dderbyn gwobr Hyfforddwr Gymnasteg y Flwyddyn.

Aeth Charlotte a Mari ymlaen i gystadlu dros Gymru yng nghystadleuaeth y parau a dod yn wythfed - tipyn o gamp mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Llongyfarchiadau mawr, ferched.

Llongyfarchiadau i Sam Brammeld o flwyddyn 5 ar gael ei ddewis i fynd am dreialon gyda thîm pêl-droed Caerdydd. Da iawn ti, Sam. Cafwyd ymweliad annisgwyl gan gyflwynwyr Cyw â'r dosbarth Meithrin a Derbyn yn ddiweddar. Bu'r plant yn mwynhau gwrando ar stori a chanu yn eu cwmni.

Mae pawb yn yr ysgol yn brysur yn ymarfer gogyfer ag Eisteddfod yr ysgol – yn canu, llefaru, gwneud gwaith Celf a llawysgrifen ac yn ysgrifennu storïau. Edrychwn ymlaen at gael diwrnod o gystadlu brwd wrth ddathlu'n Cymreictod. Diolch yn arbennig i staff a disgyblion yr adran Uwchradd am eu parodrwydd i feirniadu i ni – Delor James, Hedydd Thomas, Heledd James, Cath Richards, Liz Harding a disgyblion y chweched.

Cynhaliwyd diwrnod hwyl yn yr ysgol i hybu defnydd o'r Gymraeg fel ail iaith ymhlith dosbarthiadau'r dysgwyr. Bu'r plant yn chwarae gêmau, yn

darllen gyda'u bydis, yn ogystal â dawnsio gwerin gyda Cerian Phillips a gwneud gwaith drama gyda Mari o Arad Goch. Diolch hefyd i ddisgyblion y chweched am eu cymorth.

Yn ddiweddar bu Daniel Davies a Rebeca Heath lawr ym Mhenmorfa yn Aberaeron yn lleisio barn a thrin a thrafod materion pwysig sy'n ymwneud â phobl ifanc Ceredigion.

Cyn gwyliau'r hanner tymor trefnwyd disgo gan Gymdeithas y Rhieni ac Athrawon i ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn dawnsio i gyfeiliant cerddoriaeth fodern. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at atgyweirio offer chwarae ar yr iard.

Yr Ysgol Gyfun

Unwaith eto eleni, amlygwyd talentau disglair disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn yr Eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd ar y 8fed a'r 9fed o Chwefror.

Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thy sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Miss Lowri Daniel (Cerdd), Miss Gwennan Davies (Llefaru a'r Gadair), gyda Mr Dafydd Wyn yn beirniadu cystadleuaeth y Goron.

Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y tri ohonynt at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Bwrodd nifer o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Ymweliad'. Enillwyd y Gadair gan Carwen Richards o dy Dulas. Cipiodd Elliw Dafydd o Teifi yr ail safle a Llion Thomas o Dulas y drydedd wobr.

Roedd y gadair yn rhoddedig gan Tomos a Daniel Angell, Creigiau, Caerdydd, er cof am eu cyfnither Siân Watkins.

'Colours' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Elinor Jones o dy Dulas oedd yn fuddugol, tra dyfarnwyd Libby Jones o Greuddyn yn ail ac Adam King o Teifi yn drydydd. Roedd y goron yn rhoddedig gan Mr a Mrs Aneurin Davies er cof am eu merch Sue , mam Sam a Daniel Garside.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thy sef Nicola Miles a Gareth Davies (Creuddyn); Carwen Richards a Rowan Williams Linseele (Dulas); Jodie Thomas a Daniel Edwardes (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Dulas ddaeth i'r brig gyda 610 o bwyntiau, Teifi yn ail gyda 539 a Creuddyn yn drydydd gyda 469 o bwyntiau. Dulas enillodd y cystadlaethau gwaith cartref hefyd.

Nos Iau, 10fed o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Wyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgetsys, darnau offerynnol, grwp pop a'r dawnsio disgo – rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrlwm afieithus y disgyblion.

Talodd y prifathro, Dylan Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Elliw Dafydd a Ben Lake am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhaodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grwp Pop – Teifi; Stori a Sain – Teifi; Dawnsio Disgo - Creuddyn; Sgets – Dulas; Meimio – Teifi; Unawd Offerynnol Iau - Meinir Davies (C); Unawd Offerynnol Hyn - Elliw Dafydd (T); Llefaru Cymraeg Iau - Lowri Elen Jones (C); Llefaru Cymraeg Hyn - Carwen Richards (D); Unawd Merched Iau - Lowri Elen Jones (C); Unawd Merched Hyn - Gwawr Hatcher(D); Unawd Bechgyn Iau - Meirion Thomas (D); Unawd Bechgyn Hyn - Dewi Uridge (C); Deuawd - Gwawr Hatcher a Sian Elin (D); Areithio - Aron Dafydd (T); Parti Merched – Creuddyn; Parti Bechgyn – Teifi; Côr – Dulas.

Enillodd y canlynol wobrau hefyd: Cwpan y cerddor gorau - Gwawr Hatcher (D); Llefarwraig orau'r dydd - Lowri Elen Jones (C); Cwpan yr actor gorau - Owain Davies (D); Unigolyn â mwyaf o farciau yn y cystadlaethau gwaith cartref - John Janes Bl 12 (T); Cwpanau Adran y Gymraeg Darn gorau o waith Bl 7 - Meirion Thomas D; Bl 8 - Luned Jones D; Bl 9 - Gethin Morgan C; Bl 10 +11 Llion Thomas D; Bl 12 + 13 Carwen Richards D.

Ar Ionawr 28ain bu criw o ddisgyblion celf blwyddyn 10-13 ar daith i Lundain i ymweld â'r National Gallery a'r Tate Modern. Cafwyd cyfle hefyd i wneud ychydig o siopa yn Covent Garden. Gwelwyd nifer o berfformwyr ar y stryd a phobl yn gwerthu crefftau. Bu'n brofiad gwerthfawr ac fe ddysgodd y disgyblion am hanes y ddwy oriel yn ogystal â'r gwahanol fathau o gelf yn yr arddangosfeydd. Y mae'r Adran Gelf yn gobeithio trefnu trip tebyg yn flynyddol i ddisgyblion yr ysgol. Y mae yna daith hefyd yn cael ei threfnu i Baris i ymweld â'r Louvre a'r Musée d'Orsay ym mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau mawr i Ben Lake o flwyddyn 13 ar gael ei dderbyn i Goleg y Drindod, Rhydychen. Mae Ben, ein prif fachgen eleni, yn astudio Ffrangeg, Saesneg Hanes a Daearyddiaeth yn y Chweched ac y mae'n golygu astudio Hanes a Gwleidyddiaeth yn y Brifysgol. Dymunwn bob lwc iddo yn ei arholiadau.

Yn ystod y tymor diwethaf bu nifer o ddisgyblion ynghlwm â chorau hyn y Sir yn cael hyfforddiant gan Mr Emyr Wynne Jones. Côr SATB: Bl 13 - Elliw Dafydd, Lowri Pugh Davies; Bl 12 - Bethan Hardy; Bl 11 - Nicola Williams, Hannah Roberts, Amelia Davies; Bl 10 - Gwawr Hatcher, Meleri Davies. Côr Bechgyn T B: Bl 11 - Rhodri Pugh Davies, Josh Lloyd, Josh Eberlein, Rhydian Jenkins; Bl 10 - Dewi Uridge, Aron Dafydd, Daniel Hage, Marty Evans, Tom Oliver, Daniel Garside, Jack Parry. Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid gohirio'r cyngerdd, ond gobeithir ei ail-drefnu ar gyfer mis Ebrill.

Dychwelodd y sgiwyr o'u taith i Zel am See yn Awstria wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn. Diolch i'r Adran Ymarfer Corff am drefnu'r daith.

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n rhedeg yn Rasys Traws Gwlad Ceredigion: Blwyddyn 7: Poloma Kalydy (15fed); Blwyddyn 8/9: Caitlin Page (2il), Ffion Quan (4ydd), Jim Neal (10fed), Cory Lloyd (13eg), Sion Phillips (15fed); Blwyddyn 10/11: Rhian Jones (6ed), Caitlin Theodorou (9fed), Elin Neal (13eg).

Llongyfarchiadau gwresog i Kyle Collins Ward o flwyddyn 12 ar ei lwyddiant ym Mhencampwriaeth Athletau dan do Gorllewin Cymru. Enillodd y Wobr Aur yn y ras 60m a'r Wobr Efydd yn y naid hir.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Capel y Groes oedd man cyfarfod y gymdeithas yn mis Chwefror, a chroesawyd pawb yno gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd. Braf oedd clywed ganddi fod y Gymdeithas wedi derbyn siec am £100 gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd eleni eto, ac mae'n diolch yn fawr iddynt am feddwl amdanom.

Y siaradwr gwadd oedd Y Parchedig Dyfrig Lloyd, Llanddewi Brefi, a'i destun oedd 'Gwneud gwin'. Dywedodd mai ei fam-gu oedd wedi dylanwadu arno. Er ei bod yn Fethodist ac wedi dod o dan ddylanwad y Band of Hope a'r Mudiad Dirwest, roedd hi'n gwneud galwn o 'foddion' bob blwyddyn, sef gwin o flodau'r ysgawen! Roedd wedi dod â'r offer priodol gydag ef, a thrwy gyfeirio atynt yn eu tro, aeth â'r aelodau drwy'r broses o wneud gwin. Dywedodd mai blodau a llysiau y gellir eu tyfu neu eu casglu yn y gwyllt y mae'n eu defnyddio bob tro, er iddo gyfaddef ei fod wedi prynu orennau Seville trwy gamgymeriad un tro. Am eu bod yn rhy chwerw i'w bwyta, fe'u trowyd yn win blasus.

Nid yn unig mae'n gwneud gwin ond mae hefyd yn brofiadol iawn fel beirniad gwin mewn sioeau hwnt ac yma, a chaed ambell i stori ganddo am hynny hefyd.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Dilwen George am brynhawn diddorol dros ben. Dywedodd mai siom fawr oedd clywed ei fod ar fin gadael ardal Llanddewi i fynd i wasanaethu i Eglwys Dewi Sant yng Nghaerdydd. Dymunodd yn dda iddo yn y brifddinas.

Mwynhawyd paned o de a phice bach wedi eu paratoi gan wragedd Capel y Groes, a diolchwyd yn ddidwyll iddynt hwythau gan Irene Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Mawrth 9fed yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd pan fydd plant yr ysgol yn rhoi adloniant ac yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda ni.

Eglwys Santes Gwenog.

Yn ystod mis Chwefror ymunodd ein ficer y Parch Susie Bale â chynrychiolaeth o Ddeoniaeth Tyddewi ar bererindod i ymweld â gwlad Israel. Cafodd daith bleserus ac addysgiadol wrth ymweld â golygfeydd ac adeiladau Sanctaidd y sonnir amdanynt yn Y Beibl.

Yn absenoldeb ein ficer, y Parchedig Bill Fillery fu'n gwasanaethu yn yr Eglwys. Derbyniodd groeso cynnes a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i ddychwelyd atom.

Llongyfarchiadau i aelodau C.Ff.I. Llanwenog a fu'n llwyddiannus iawn yn y gystadleuaeth 'Siarad Cyhoeddus' yn ddiweddar. Byddwn yn gwybod canlyniad y gystadleuaeth 'Hanner awr Adloniant' cyn diwedd y mis yma.

Braf oedd gwrando ar Rhys Thomas, Llechwedd - 'Seren y Gwallt' - yn cael ei gyfweld gan Beti George ar raglen 'Beti a'i Phobol' ar Radio Cymru yn ddiweddar. Bu'n olrhain hanes ei fagwraeth yn Llanwenog a'i yrfa yn y byd trin gwallt. Mae atgofion hapus am Rhys a'i chwaer Rhian, sy'n olffwraig broffesiynol, yn aelodau gweithgar yma yn yr Ysgol Sul.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylus neu sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Clwb 100 Ionawr – 1. Margaret Rees, Llysdolau; 2. Richard Bone, Drefach; 3. Bronwen Jones, Greenhill.

Cylch Meithrin Drefach

Gan mai thema'r tymor hwn yw 'Anifeiliaid Anwes', daeth Mrs Janet Barber atom am fore i ymuno â'r plant. Daeth â llu o anifeiliaid bach gyda hi a mawr oedd diddordeb y plant. Diolchwn yn fawr iddi.

C.Ff.I. Llanwenog

Cynhaliwyd cinio blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth lle bu dros gant ohonom, yn aelodau, cyn-aelodau, rhieni a ffrindiau'r clwb yn dathlu llwyddiant arbennig y clwb dros y flwyddyn. Cafodd pawb lond bol o fwyd blasus! Cafwyd araith wych gan ein llywyddion Mr a Mrs Elfyn Morgan, Glwydwern yn sôn am holl ddigwyddiadau'r clwb yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Ein siaradwr gwadd eleni oedd Mr Glan Davies a chawsom lawer o hwyl a sbri yn gwrando ar ei straeon digri.

Enfys Hatcher a gipiodd y wobr ar gyfer yr aelod hŷn mwyaf gweithgar a Carwyn Davies a enillodd wobr aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn. Cafodd pawb noson hwylus ger y môr yn Aberystwyth.

Aeth nifer helaeth ohonom am drip i'r 'Coracles' yng Nghenarth. Dyma beth yw lle gwych i nofio ac i ymlacio yn y 'sauna'!

Mae'r holl aelodau wedi bod wrthi'n ddiwyd yn Ysgol Cwrtnewydd yn ymarfer tuag at yr hanner awr adloniant. Rydym wedi cael llawer o sbri yn canu, dysgu geiriau ac actio.

Rhifyn mis Ebrill
Yn y Siopau
Ebrill 7fed
Erthyglau i law erbyn
Mawrth 24ain
Newyddion i law erbyn
Mawrth 28ain

Ffarmers

Cydymdeimlad

Yn dawel yn Ysbyty Glangwili ar 20fed o Ragfyr bu farw Mary Ceridwen Roberts, Berthglyd. Mary Ceridwen oedd ei henw bedydd ond fel May yr adnabyddid hi gan bawb. Priod ffyddlon y diweddar Peter Roberts; mam dyner Keith a Clive a mam yng nghyfraith barchus Helen ac Anna. Mam-gu a hen fam-gu hoffus i Bethan, Meinir, Gethin, Annwen, Sarah, Paul ac Alfie; chwaer annwyl John a Megan ac Anti May arbennig i Brian, Sandra, Teleri, Eirian, Catrin, Gareth, Rhodri ac Euros. Ganwyd hi ym Mrynmawr yn ferch i'r diweddar Abel a Sara Isaac, ac yna symudodd y teulu i'r Gilfach. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Ffarmers ac wedi gadael aeth i weithio i Penbanc ac yna i B J Jones, Llambed ac wedi hynny aeth yn gogyddes i Westy'r Claredon, Aberystwyth. Priododd â Peter yn 1961 a mynd i fyw ym Mhenmachno lle y ganwyd Keith a Clive. Yna, yn yr wythdegau daeth yn ôl i fyw yn Ffarmers a chymryd at fod yn ofalwraig yr ysgol. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Ffaldybrenin a mynychai yr oedfaon yn gyson tra gallodd a hynny gyda help Annie, ei ffrind, a oedd yn galw amdani yn y car. Cynhaliwyd ei hangladd a oedd yn hollol breifat i'r teulu a'i ffrindiau agos yn Amlosgfa Arberth ddydd Gwener Rhagfyr 31ain. Gwasanaethwyd gan y Parch Richard Lewis yn absenoldeb ei gweinidog Parch Huw Roberts. Yr arch gludwyr oedd Gethin Roberts, Brian Isaac, Eirian Gravell a Sam Vernon.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, am y llu cardiau a'r galwadau ffôn ac am y rhoddion er cof am May. Diolch i'r Parch Richard Lewis am ei wasanaeth teimladwy ac i Tegwyn Lloyd am drefnu'r angladd gydag urddas. Diolch yn arbennig i Glenys am ei charedigrwydd yn ystod gwaeledd May.

Llanybydder

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Geraint a Margaret Jones, Llysawel ar ddathlu eu Priodas Arian ddiwedd mis Chwefror. Iechyd da eto am flynyddoedd maith o fywyd priodasol.

Cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth sydyn Mrs Eirwen Thomas, 'Gerlan' [gynt o Cilgwyn] Cwmsychbant yn 84oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r plant a'u teuluoedd i gyd yn eu colled o golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Brynteg ac yno y rhoddwyd ei gweddillion i orffwys.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

Cwmann

Elan Jones, Araul yn cwrdd a Conie Fisher yn Eisteddfod Brynberian. Cafodd Elan ddwy wobr gyntaf am lefaru a chanu a thrydydd am ganu emyn.

C.Ff.I. Cwmann

Gyda'r tywydd wedi bod yn oer ac yn ffwdanus cyn y Nadolig, fe fuodd hi'n anodd iawn i ni fel clwb gwrdd a chynnal ein gweithgareddau arferol. Ond fe lwyddodd nifer o'r aelodau ac aelodau 'Women's Food and Farming' ddod ynghyd ddechrau mis Rhagfyr am noson yng nghwmni 'Chocolate Fusion'. Cwmni siocled o Landysul yw 'Chocolate Fusion' ac fe gafodd pob aelod y cyfle i wneud trwffl siocled a'i addurno, cyn gwneud pizzas siocled anferth a'u haddurno gydag amrywiaeth o losin a darnau siocled. Ar ôl iddynt galedu fe gafodd pawb flasu siocled bendigedig.

Cafwyd sgwrs gan Kitty a Nick yn sôn sut yr aethant ati i ddechrau eu busnes a chafwyd cyngor gwerthfawr i aelodau ifanc sydd â syniadau am ddechrau eu busnes eu hun.

Cafwyd dechrau cyffrous i 2011 gyda dawns y Llysgenhades ar y 7fed o Ionawr yn Abertawe. Aeth nifer o aelodau hŷn y clwb lawr i Abertawe i ddathlu ac i ddawnsio tan oriau mân y bore.

Y nos Sadwrn ganlynol cafwyd ein parti Nadolig yn nhafarn Glan yr Afon, Talgarreg. Cafwyd croeso cynnes a bwyd blasus iawn. Roedd hi'n braf gweld aelodau, rhieni ac aelodau'r pwyllgor ymgynghori yn ymuno yn yr hwyl. Diolch i'r pwyllgor am eu cefnogaeth eleni eto.

Ar nos Wener y 14eg cafwyd ymweliad â Brigâd Dân Caerfyrddin. Cafwyd croeso arbennig, wâc yn yr injan dân, arddangosfa gyda char oedd wedi bod mewn damwain a sgwrs am ddiogelwch wrth yrru ac yn y cartref. Dangoswyd i ni beth fyddai'n digwydd pe byddech chi'n arllwys dŵr ar ben sosban sglodion - fflamau di-ri a gwres anhygoel.

Yn ystod yr wythnos cafwyd cyfarfod i ddechrau'r paratoadau ar gyfer cystadleuaeth yr hanner awr adloniant ac mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer dan ofal Mrs Llinos Jones, Mr a Mrs Dylan a Carys Lewis.

Rhoddodd ein llywydd, Mr Wyn Jones, wahoddiad i gyn aelodau ddod ynghyd i Seiat Holi ar nos Wener yr 28ain. Ar y panel roedd Mrs Eirios Thomas, Mr Dylan Lewis, Mrs Teleri Gwyther a Mrs Tegwen Morris. Cafwyd cwestiynau di-ri a hynod o ddiddorol. Diolch i'r panelwyr am ein diddori.

Ar nos Fercher y 23ain o Chwefror bu Clwb Cwmann yn cystadlu yn Neuadd San Pedr yng nghystadleuaeth yr hanner awr adloniant.

Diolch

Dymuna Paul a Fiona ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Jac Elwyn Jones. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr iawn. Mae Hari wrth ei fodd gyda'i frawd newydd.

Diolch

Dymuna Beryl, Kevin, Angela ac Andrew Doyle, Caradog Vue, Heol Cellan, ddiolch am bob arwydd o gydymeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl, sef Nancy Evans, Llanerch, Maesycrugiau.

Hefyd, hoffai Beryl ddiolch o galon am y llu o gardiau, llythyron, galwadau ffôn, blodau a'r holl ofal a dderbyniodd yn ystod ei llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Yn ystod yr adeg anodd hyn, gwerthfawrogwn fel teulu, yr hyn oll yn fawr iawn.

Sefydliad y Merched Coedmor

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o Sefydliad y Merched Coedmor ar Chwefror 7fed. Croesawodd y Llywydd, Noeleen Davies, yr aelodau i gyd a hefyd un aelod newydd, sef Mrs Brenda Morgan. Llongyfarchodd Glesni ar ddod yn fam-gu i Nansi a dymunodd wellhad buan i Gwynfil ac Elma ar ôl eu damweiniau.

Croesawodd y llywydd y tair gwraig wadd a chafwyd sgyrsiau diddorol ganddynt.

Testun Menna Jones o Ffair Rhos oedd 'Pwy ydw i ?' Rhoddodd i ni gefndir yr enw teuluol 'Beaufort' a soniodd am y bobl a ddylanwadodd arni. Cyfeiriodd, gyda hiwmor, at nifer o ddigwyddiadau personol yn ei bywyd.

Soniodd Elaine Davies am ei gwaith fel gweithwraig gymdeithasol. Mae Elaine ar hyn o bryd yn gyfrifol am hyfforddi gweithwyr yn y maes hwnnw a soniodd ei bod yn bwysig fod gweithwyr yn gallu cyfathrebu â'u cleientiaid yn eu mamiaith. Derbyniodd wahoddiad yn ddiweddar gan y Cynulliad i wneud gwaith ymchwil i brofiadau siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal. Byddai'n ddiolchgar i dderbyn unrhyw sylw neu brofiad gan aelodau o'r cyhoedd.

Y gwestai olaf oedd Nanna Ryder o Gwmsychbant. Siaradodd am y profiad a gafodd adeg y Pasg llynedd pan fu ar ymweliad ag Ysgol yn Reggio Emilia yn yr Eidal. Mae yna gysylltiad agos rhwng Coleg y Drindod Dewi Sant lle mae Nanna ar hyn o bryd yn darlithio â'r Ysgol arbennig yma yn yr Eidal. Enwogrwydd yr Ysgol hon yw ei bod yn arloesi gyda dulliau anghonfensiynol, sef dysgu plant i fod yn blant a dysgu trwy chwarae. Mwynhaodd y daith a bu'r profiad yn un emosiynol iawn iddi.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r tair gan Avril. Enillwyd y raffl fisol gan Mary, a Glesni ac Avril oedd yn gyfrifol am baratoi'r te.

Mis nesa byddwn yn cwrdd yn y Sosban Fach ar Fawrth 7fed i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni ein gŵr gwadd, sef Dafydd Aeron.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs. Eirwen Davies, Ffawydd ar golli ei brawd William Hughes, Brynhirfaen, ac i Mr. Desmond Jones, Bro Dyffryn yn dilyn marwolaeth ei ferch yn Llundain.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Glesni Thomas, 1 Heol Hathren ar ddod yn fam-gu unwaith yn rhagor. Merch fach i Lyn a Lucy. Pob dymuniad da.

Ysbyty

Da deall fod y Parchedig Hugh Roberts, Gweinidog Capel Bethel Parcyrhos wedi cael ei lawdriniaeth yn ystod y dyddiau diwethaf, a phob dymuniad da am wellhad buan oddi wrth yr aelodau a'r ffrindiau i gyd yng Nghwmann.

Clwb 250

Enillwyr mis Chwefror 2011: 1af, Danny Davies, Brynteify, Cwmann. 2ail, Mrs. M Evans, Fferm Felinfach, Cwmann. 3ydd, Arthur Roderick, Awelon, Llambed. 4ydd, Ian, Bryngolau, Cwmann. 5ed, Mrs Lewis, Tanlan, Cwmann. 6ed, Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann. 7fed, Mrs Douch, 1 Heol y Fedw, Cwmann. 8fed, Mr a Mrs Hope, Post Gwyn, Cwmann. 9fed, Eirian James, Mark Lane Cafe, Llambed. 10fed, Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann.

Clwb 125

Enillwyr mis Chwefror 2011: 1af, Mrs Meinir Harries, Pennant. 2ail, Mrs Ilse Shaw, Gorsgoch. 3ydd, Mrs Phyllis Jones, Cwmann. 4ydd, Mrs Pat Jones, Cwmann. 5ed, Mrs Eirwen Davies, Cwmann. 6ed, Mr Alun Jones, Parcyrhos. 7fed, Mrs Eirian Jones, Llanbed. 8fed, Mrs Audrey Bonwer, Llanbed. 9fed, Mrs Kate Williams, Cwmann. 10fed, Mr Noel James, Cwmann.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilio a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

WD Lewis a'l Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Cefn-hafod
Gorsgoch
☎ 01570 434238
Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.
Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.
Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Yn Eisteddfod Dihewyd ar yr 28ain Ionawr bu Lowri Elen Jones, Glennydd yn fuddugol ar y llefaru 12-15oed a'r Canu Emyn 12-18oed.

Cymdeithas Hanes

Roedd yr ystafell ddarlithio yn adeilad Caergrawnt yn orlawn i'n cyfarfod ym mis Chwefror, a braf oedd gweld rhai o aelodau Cymdeithas Hanes Cilcennin wedi ymuno â ni. Croesawyd pawb yn gynnes gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Loveday Lewes Gee oedd siaradwraig y noson, yn fwyaf adnabyddus efallai fel merch y diweddar Capt. a Mrs Hext Lewes, Llanllŷr. Ers ymddeol yn ôl i Llanllŷr yn 1989, mae wedi ymroi i adnewyddu'r gerddi yno, gerddi sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Ond roedden nhw wedi dirywio ers degawdau cyn iddi ddechrau eu trin.

Dechreuodd drwy roi ychydig o hanes y tŷ yn Llanllŷr gan sôn nad yw'r un presennol yn sefyll ar yr union un safle ag yr oedd y Lleiandy Sistersaidd yn y ddeuddegfed ganrif. Mae'n bosib mai'r Arglwydd Rhys a fu'n gyfrifol am godi'r Lleiandy, ac i nifer o'i berthnasau benywaidd, gan gynnwys ei chwaer Gwladus, ddod i fyw yma. Byddai'r lleianod yn cyflawni'r un gwaith ag y byddai'r mynachod yn Ystrad Fflur, felly gosodwyd rhannau o'r tir i godi llysiau, plannu perllannau, a chynlluniwyd gardd lysieuol er mwyn cael meddyginiaeth i'r cleifion.

Ar ôl diddymu'r mynachlogydd, gwerthwyd Llanllŷr i deulu Lloydiaid Castellhywel. Er bod sawl cenhedlaeth wedi dangos diddordeb yn y gerddi, erbyn i'w thad gymryd meddiant o Llanllŷr yn 1947, gwelwyd mai ar ffermio roedd ei fryd ef a doedd gan ei mam fawr o ddim diddordeb yn yr ardd chwaith. Felly, yn ystod y deugain mlynedd nesaf, mynd o ddrwg i waeth wnaeth y gerddi.

Ond mae'r rhod wedi troi unwaith eto a'r gerddi wedi cael ail fywyd dan ofal Loveday a Robert Lewes Gee. Mae'r gerddi'n cael eu hagor yn flynyddol ar adegau arbennig dan y Cynllun Gerddi Cenedlaethol, ac os am wybod rhagor am stori Llanllŷr, mae Loveday Lewes Gee wedi cyhoeddi llyfryn 'A very small corner of Paradise', a gyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa.

Diolchwyd yn gynnes i Mrs Lewes Gee, a'i ŵyr George am gynorthwyo ar y cyfrifiadur, gan y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 9fed yn yr Hen Neuadd, a bydd Alan Leech yn rhoi hanes Llanfair Clydogau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Croeso cynnes i bawb.

Shiloh

Dr Graham Jones o'r Llyfrgell Genedlaethol oedd y gwr gwadd yn y Gymdeithas Ddiwylliadol brynhawn Gwener Chwefror 4ydd. Cyfeiriodd y llywydd Mrs Eurwen Davies ato fel brodor o Aberdâr ond mae ganddo gysylltiadau â Chwmann ac ag Eglwys Shiloh. Mae'n awdur toreithiog, wedi cyhoeddi tua 170 o ysgrifau.

Testun ei araith oedd bywyd a gwaith y diweddar Gareth Vaughan Jones. Cafodd ei eni yn y Barri ond o'r dechrau roedd yn amlwg fod yna yrfa ddisglair o'i flaen. Fe'i derbyniwyd i Goleg y Drindod Caergrawnt ac yr oedd wrth ei fodd gyda bywyd y Coleg. Llwyddodd yn eithriadol fel newyddiadurwr a bu'n gweithio am gyfnod gyda'r Times ac yna fel ysgrifennydd i Lloyd George. Teithiodd yn eang dros y byd i gyd ac mi wnaeth gyfarfod â Hitler, â gweddw Lenin ac â Megan Lloyd George, ymysg enwogion eraill. Gweithiodd am gyfnod i'r Western Mail ond yn ystod taith i Mongolia cafodd ei lofruddio gan ladron a oedd yn chwilio am arian a drylliau ac yntau ond yn 29 oed. Rhys Bebb Jones a gafodd y fraint i ddiolch am araith hynod ddiddorol ac addysgiadol ac am waith ymchwil trylwyr. Twynog Davies fydd y siaradwr gwadd nesaf a'i destun fydd "Darnau ohonof ar gân". Bydd yna gyfle i glywed darnau o gerddoriaeth sydd wedi dylanwadu ar ei yrfa. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Cinio

Yng nghyfarfod mis Chwefror, y Bnr. Tom Marks, Cil-y-Cwm, gynt o Lambed, oedd y siaradwr gwadd. Yn ei eiriau o groeso, soniodd y Llywydd, Y Cyng. Hag Harris, mai tad y gwestai, y diweddar Athro Marks, pennaeth Adran y Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, oedd un o chwech aelod gwreiddiol y Cylch. Wedi graddio yn y Gymraeg o Brifysgol Abertawe a chwblhau cwrs ymarfer dysgu, penodwyd y siaradwr yn bennaeth y Gymraeg yng Ngholeg Llanymddyfri a bu yno trwy gydol ei yrfa. Bellach, wedi ymddeol o fod yn athro, mae yn gwneud gwaith rhan amser i amryw sefydliad.

"Dyddiau Difyr" oedd thema sgwrs y gwestai. I ddechrau, bu'n dwyn i gof rhai atgofion cynnar am fyw yn Llambed gan gynnwys ymweliadau Sioni Winwns â'r dref. Wedyn, fe'n tywyswyd ganddo i Lydaw ble mae yn hoff iawn o dreulio amser gyda'i deulu. Gwnaeth nifer o gymariaethau rhwng Llydaw a Chymru, gan gyfeirio yn arbennig at debygrwydd y Gymraeg a'r Llydaweg. Nid oes statws swyddogol i'r Llydaweg ond mae ysgolion preifat Diwan wedi eu sefydlu mewn rhai ardaloedd ble mae'r iaith yn gyfrwng dysgu.

Mae'r Llydawyr yn ymfalchïo'n fawr yn eu tras a'u hetifeddiaeth ddiwylliannol. Gwelir hyn mewn "Fest Noz" ac yn y gwyliau sy'n cael eu cynnal yn flynyddol fel yr un ger Menez Hom. Mae artistiaid fel y canwr poblogaidd Alan Stivell hefyd yn pontio rhwng yr hen a'r modern. Yn gymharol ddiweddar, yn arwydd arall o'r adfywiad mewn diwylliant a diddordeb yn yr hen ffordd o fyw, daeth barddoniaeth cenedlaetholwraig yn ei thrigeiniau o Ynys Ushant yn boblogaidd iawn. Gwraig yw hon oedd yn byw heb gyfleusterau modern ar ei fferm. I gloi cyflwyniad hynod o ddiddorol, darllenwyd rhai o'i cherddi wedi eu trosi i'r Gymraeg gan y gŵr gwadd.

Y Bnr. Andrew Jones, yn ei ffordd unigryw, a gynigiodd y diolchiadau.

Aelwyd yr Urdd

Ar nos Fawrth 8fed o Chwefror cynhaliwyd cyfarfod Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr am 7 o'r gloch. Gwnaeth Geinor Medi groesawu a chyflwyno ein gwestai am y noson sef Guto Gwilym, Cwmann a oedd wedi dod i gynnal gweithdy drama ysgafn. Cafodd pawb lawer o hwyl yng nghwmni Guto wrth i ni gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau i wella ein sgiliau actio. Ar ôl noson brysur o fwynhad gwnaeth Morgan Lewis roi diolch i Guto. Gwnaeth Janet ein hatgoffa am y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwau cystadleuwyr Eisteddfod 2011. Hefyd yn ddiweddar, daeth criw o'r aelodau ynghyd i fwynhau sesiwn rygbi yng ngofal Emyr a dawnsio gyda Sally. Bu'n gyfarfod hwyliog a phawb yn ymuno yn y gweithgareddau. Diolchodd Natalie a Lowri Elen i Emyr a Sally am noson egnïol ond difyr iawn.

Merched y Wawr

Yng nghyfarfod mis Chwefror cafodd Merched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch noson yng nghwmni'r Llywydd Mrs. Mary Davies a bu'n noson diddorol iawn. Gwestai y noson oedd meibion y llywydd sef Emyr ac Aled Davies, ac fe'u croesawyd yn gynnes i'r gangen. Mae'r ddau frawd wedi eu magu yn yr ardal ac yn adnabyddus i nifer fawr o drigolion y fro. Mae Aled yn byw gyda'i deulu yng Nghwmann ac yn gweithio i Undeb Amaethwyr Cymru a chwmni yswiriant 'Mutual' ers ugain mlynedd. Dechreuodd ei yrfa yn Nhregaron ac yna fe symudodd i weithio i Aberaeron. Cafwyd hanes cefndir Undeb Amaethwyr Cymru a sefydlwyd yn 1908 a chwmni yswiriant y 'Mutual' a sefydlwyd yn 1910, gan Aled. Erbyn heddiw mae'r cwmnïoedd yma wedi tyfu yn gwmnïoedd mawr a llwyddiannus ac yn cyflogi nifer fawr o bobl dros y wlad. Bu Aled yn sôn am ei waith, a chafwyd hefyd ambell i stori ddoniol iawn ganddo. Ategodd at yr hanes trwy ddweud ei fod wedi cael croeso da gan ffermwyr ac yn y byd amaethyddol yn ystod ugain mlynedd ei yrfa. Yna, bu Emyr yn sôn am ei yrfa ef. Cogydd yw Emyr ym Mhorth Tywyn, Llanelli. Dywedodd ei fod wedi ei ysbrydoli i fod yn gogydd gan fwyd cartref blasus menywod y teulu pan yn ieuanc, yn arbennig pancws blasus y ddwy famgu a bara wedi ei bobi a chacennau bach ei fodryb, Ray. Derbyniodd ei hyfforddiant yng Ngholeg Pibwrlwyd, Caerfyrddin, lle cafodd ei ddewis yn Fyfyriwr y Flwyddyn. Yna aeth i ddilyn ei yrfa mewn gwesty 4 seren yn Droitwich, yn y Cotswolds. Dros y blynyddoedd mae Emyr wedi coginio i nifer fawr o bobl enwog, un tro i'r Prif Weinidog Margaret Thatcher, ac i lawer o enwogion eraill. Bu Emyr yn arddangos sut i halltu eog ffres trwy ddefnyddio hen rysáit wreiddiol o Lychlyn, a chafodd yr aelodau'r pleser o'i flasu. Diolchodd Miss Gwenda Thomas, croesawraig y noson, i Aled ac Emyr am roi o'u hamser i ddod i'r gangen. Ategodd Gwenda hefyd pa mor braf oedd cael ein diddori gan deulu Mary ar noson y Llywydd. Diolchodd hefyd i'r aelodau a oedd wedi paratoi'r te a'r bisgedi. Yn y cyfarfod, bu Mary yn estyn llongyfarchiadau i Glesni a'r teulu ar enedigaeth wyres newydd a dymunodd ben-blwydd hapus i Dorothy. Dywedodd ei bod yn dda ganddi glywed bod Mair, Thelma a Gwynfil yn gwella, ac fe ddymunodd adferiad buan iddyn nhw a hefyd i Jan sydd newydd ddod adref o'r ysbyty. Y mis nesaf bydd yr aelodau yn dathlu gyda chinio Gŵyl Ddewi ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Ein gwesteion fydd y Prifardd Idris Reynolds ac Elsie Reynolds.

Bedyddwyr

Bydd Cenhadon Cyswllt Eglwysi Cylch Gogledd Teifi, sef Julia a James Henley yn ymweld â'r cylch ar benwythnos y 12fed a'r 13eg o Fawrth. Bellach maent wedi cael clywed mai i Beriw y byddan nhw'n mynd. Edrychwn ymlaen i'w croesawu'n gynnes i'n plith. Dyma'r trefniadau: Sadwrn 12fed - cyrraedd Noddfa erbyn 1 o'r goch i fwynhau cinio wedi ei baratoi gan swyddogion Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod Gorsgoch, Caersalem, Noddfa a Seion Cwrtnewydd. Prynhawn Sadwrn: Taith o amgylch yr eglwysi. Nos Sadwrn:

Llanbed

Noson gymdeithasol yn Aberduar am 7.30. Gofynnir yn garedig am roddion o fara brith a phice ar y maen. Bore Sul - 10.30 y.b. Oedfa unedig yn Noddfa. Yn dilyn y gwasanaeth bydd pawb, os yn bosib, yn ymuno â Julia a James am ginio yn y Coleg. Ysgrifenyddion yr eglwysi i gasglu enwau os gwelwch yn dda erbyn Mawrth 6ed. Gwerthfawrogir cefnogaeth y 6 eglwys yn ystod y penwythnos.

Gyrfa Chwist- Cartref Hafan Deg

Ar yr 2il o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn - Dynion, 1af, Ifan John Jones, Felinfach. Cydradd 2il, Peter Jones, Llambed a Brian James, Trelech. Merched, 1af, Nancy Davies, Llambed. 2il, Harry Williams a Catrina Davies. Carden Miniature, Dynion, Edward Lockyer. Merched, Beryl Roach. Bwrw Allan - Enillwyr, Brian James a Catrina Davies. Ail - Morfydd Slaymaker a Ray Jenkins. Enillwyr 16 Chwefror fel a ganlyn - Iorweth Evans yn arwain. Dynion, 1af - Peggi Davies, Felinfach. 2il - Gwenda Thomas, Cwmann. Cydradd 3ydd - Margaret Davies a Gwyneth Williams. Carden Miniature - Dynion, Nancy Davies, Llambed. Merched - Gwendoline Davies, Llanwnnen. Bwrw Allan, Enillwyr - Peggi Davies a Morfydd Slaymaker. Ail - Nana Davies a Brian James. Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Mawrth ar nos Fercher 2il, 16eg a'r 30ain. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddidwyll â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol ar Ionawr 27ain yn Y Pantri fel arfer lle cawsom bryd arbennig o fwyd wedi ei baratoi gan Delyth a'i staff.

Croesawyd yr aelodau i gyd gan Beti Evans, ein Llywydd.

Y gŵr gwadd oedd Hywel Roderick, un o blant Capel Brondeifi ac sydd yn awr yn Ddirprwy Brifathro Ysgol Aberporth. Cafwyd disgrifiad byw iawn a lluniau dramatig ganddo o'i daith yn dringo Mynydd Kilimanjaro sef y mynydd uchaf yng nhyfandir Affrica, sydd chwe gwaith uchder yr Wyddfa. Dywedodd mai dringo Kilimanjaro oedd y sialens fwyaf anodd iddo ymgymerid â hi erioed. Pwrpas y daith oedd codi arian tuag at Elusen Gancr Macmillan a llwyddodd i gasglu dros £1,500 o bunnoedd a diolchodd i lawer o'r rhai oedd yn bresennol am ei noddi.

Diolchwyd i Hywel yn gynnes iawn gan Sallie Jones a fu am flynyddoedd yn athrawes Ysgol Sul arno. Dywedodd fod y noson wedi bod yn agoriad llygad i bawb.

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: John T.B. Williams, Clerc: Eirian Williams, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 18 Ionawr 2011 yng Ngwesty'r Grannell.

Wedi i'r Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Trafodwyd nifer o faterion cyffredinol, yn cynnwys rhai ceisiadau am gymorth ariannol.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyng. Megan Rees yn hysbysu'r cyfarfod am ei phenderfyniad i ymddiswyddo o'r Cyngor ar ôl nifer o flynyddoedd, a hynny ar unwaith.

Mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Cynghorwyr i gyd, ddiolch iddi am ei ffyddlondeb a'i gwasanaeth. Bydd rhaid symud ymlaen yn awr i lenwi'r sedd wag.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Rob Phillips, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Ionawr 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Dorothy Williams.

Mae'r Heddlu'n dal i ymchwilio i'r difrod a wnaed i'r fasged grog ar y Cwmins ac i'r fan goch sydd wedi ei pharcio'n barhaol yno. Mae baw cŵn yn creu problem yn y dref. Mae'r heddlu'n archwilio Parc-yr-Orsedd yn gyson. Mae parcio y tu allan i Hafan Deg yn fwrn ac mae'r Heddlu wedi gosod cônau er mwyn ceisio lleddfu'r broblem.

Etholwyd Hag Harris yn Faer am y flwyddyn 2011-12 a Kristiah Ramaya yn ddirprwy iddo.

Nid oedd yr hysbyseb i harddu rhan o Sgwâr Harford wedi denu ymateb o gwbl. Casglwyd £150 i adfer y cerrig beddau a ddifrodwyd ym mynwent yr eglwys. Cefnogwyd cais gan Gapel y Methodistiaid am gymorth o Gronfa Gymunedol y Cyngor Sir.

Mae Cyngor Ceredigion wedi cytuno i gefnogi cynllun i godi 24 o unedau byw 2/3/4 ystafell wely gyferbyn â Brongest ar Ffordd Llanfair.

Cytunwyd i gefnogi: Pwll Nofio Llambed, Cyngor ar Bopeth, Sioe Amaethyddol Llambed, Macmillan, Ymgyrch Amddiffyn Cymru Wledig.

Penderfynwyd holi Cyngor Ceredigion i archwilio palmentydd y dref am ddifrod a achoswyd yn ddiweddar gan rew.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Gwennan Davies, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 8 Chwefror 2011 yn Neuadd Drefach

Trafodwyd yn helaeth Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion ac roedd y Cyngor Cymuned o'r farn bod angen rhagor o dai ar gyfer y pentrefi o amgylch Llanbed.

Adroddwyd bod sawl golau stryd yn Alltyblaca a Chwrtnewydd yn ddiffygiol o hyd.

Mae angen rhagor o focsys halen yn y plwyf ac mi fydd llythyr yn cael ei ddanfon at y Cyngor Sir yn gofyn am y rhain.

Mi fydd llythyr hefyd yn cael ei ddanfon yn gwrthwynebu'r melinau gwynt ar Fynydd Llanllwni.

Cafodd baner newydd ei gosod yn Nrefach ar gyfer y 1af o Fawrth.

Derbyniwyd ceisiadau cynllunio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Mawrth am 7.30yh.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Adloniant

Theatr FELINFACH

Clwb Drama

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Lledrith Llew yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010, dyma gyfle i gymryd rhan mewn sioe newydd sbon gan y Clwb Drama.

Mae'r clybiau drama eisoes wedi ail ddechrau gan ddenu degau o blant yn barod. Ar ôl hanner tymor bydd y plant yn dechrau paratoi ar gyfer eu sioe newydd sbon a berfformir ar lwyfan Theatr Felinfach ar y 1af o Orffennaf 2011. Digon o hwyl ac amser cyffrous o'u blaenau felly. Nid yw'n rhy hwyr i ymuno ac mae croeso i bob un o flynyddoedd 3 i 6 ymuno yn y clwb drama. Felly peidiwch â bod yn swil – dewch i ymuno yn yr hwyl! I gael gwybodaeth am y clwb agosaf atoch chi, cysylltwch ag Anna ap Robert yn Theatr Felinfach 01470 570697 neu anna.aprobert@ceredigion.gov.uk

Ar y gweill...

Rydym yn hynod ffodus i fedru cyhoeddi y bydd cyngerdd arbennig iawn yn y Theatr ar Fawrth 17eg. Mae Galeri Caernarfon wedi comisiynu'r cyfansoddwr Gareth Glyn i ysgrifennu trefniant llinynnol o ganeuon telynegol y gyfansoddwraig Dilys Elwyn Edwards, sef Caneuon y Tymhorau. Perfformir y cylch gan y soprano hudolus, Elin Manahan Thomas. Bydd Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd yn perfformio, yn ogystal â'r Prifardd Mererid Hopwood. Bydd Mererid Hopwood hefyd yn cynnal gweithdy ysgrifennu ar gyfer rhai o blant yr ardal yn ystod y dydd. Archebwch eich tocynnau nawr rhag cael eich siomi!

Rydym yn edrych ymlaen yn arw at groesawu cynhyrchiad diweddaraf Theatr Bara Caws, Un Nos Ola Leuad ar Fawrth 23ain, gyda'r actores adnabyddus a thalentog Betsan Llwyd yn cyfarwyddo. Eleni mae'n hanner can mlynedd ers cyhoeddi nofel enwog Caradog Prichard ac yn ddeng mlynedd ar hugain ers llwyfannu addasiad o'r nofel. Dau ben-blwydd arbennig iawn, felly! Mae'r tocynnau yn gwerthu'n barod felly peidiwch â cholli'r cyfle i weld y ddrama arbennig hon.

Os ydych am wybod mwy am weithgareddau'r Theatr, mae'r rhaglen ar gael yn syth oddi ar ein gwefan www.theatrfelinfach.com neu gallwch ein ffonio 01570 470697. Cofiwch hefyd fod croeso mawr i chi alw draw i'n gweld ni. Hwyl fawr am y tro oddi wrth griw Theatr Felinfach!

Côr Cardi-Gân

Ar nos Sul 30 Ionawr cynhaliodd Côr Cardi-gân gyngerdd yn Neuadd Felinfach i godi arian i'n helusen am eleni, sef Sefydliad Aren Cymru. Codwyd dros £600 i'r elusen ar y noson, gydag eitemau amrywiol megis partïon canu, unawdwyr, sgetsh a'r côr llawn. Diolch i Mr Arwyn Davies, Sychpant gynt, am gymryd yr awenau a chyflwyno'r eitemau, ac i Rowland a Daphne Evans, Tafarn y Vale, Dyffryn Aeron, am eu cyfraniad fel llywyddion anrhydeddus.

Ymlaen yn awr, gyda'r côr yn mentro i fyd cystadlu ac yn parhau i ddiddanu yn lleol yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn canu yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar ôl y gêm ar 26 Mawrth.

Os ydych yn dymuno i'r côr gynnal noson yn eich ardal chi, rhowch wybod i Nia ar 07964 904309. Mae croeso bob amser i aelodau newydd ymuno â ni - mae'n adeg gyffrous chwap ar ôl i'r côr ddathlu ei ben-blwydd yn 10 oed, felly mae nawr yn amser gwych i ymuno – 'sdim ots pa lais y'ch chi'n canu!

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

Llangybi a Betws

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwysaf y fro â Mrs Betty Lucker, Bro Deri yn ei phrofedigaeth lem ar farwolaeth ei merch Pauline dan amgylchiadau arswydus iawn. Cydymdeimlir hefyd â'r holl gysylltiadau teuluol a'r ffrindiau yn ei galar.

Hamdden

Croesawodd y llywydd Dilys Godfrey bawb yn gynnes iawn i'r cyfarfod. Treuliwyd orig ddiddorol yn llawn gwybodaeth yng nghwmni Mrs Judith Jenkins wrth iddi arddangos ei doniau a'i diddordeb yn creu cardiau cyfarch ar gyfer llawer achlysur. Cawsom weld ei harddangosfa o emwaith hefyd. Gwnaeth i'r cyfan oll edrych mor rhwydd a diffwdan! Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r wraig wadd am brynhawn mor ddifyr gan Rowena Williams. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoddi gan Dilys Godfrey a Maureen Williams. Enillwyd y raffl gan Morina Davies, Sally Davies a Elizabeth Holgate. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 4ydd yn y Castle Green am 12:30y.p. pryd y ceir cawl i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Maesyffynnon

Cynhelir cyfarfod i Ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 16eg am 12:30y.p. a bydd cawl a tharten ar y fwydlen. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Dyfrig Lloyd. Pris mynediad fydd £5. Croeso cynnes iawn. Cofiwch archebu.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Lettie Vaughan gan estyn croeso arbennig i'r Bon. Rheinallt Llwyd. Treuliwyd orig ddiddorol iawn yn ei gwmni wrth iddo olrhain hanes bywyd y diweddar Islwyn Ffowc Ellis – perthynas agos iddo. Gwelwyd nifer o luniau o'i deulu: lluniau dyddiau coleg, ynghyd â lluniau ffrindiau oes a sawl achlysur pan gafodd ei anrhydeddu. Roedd yn noson gofiadwy iawn a rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r gŵr gwadd gan Mary Jones. Rhoddwyd y gwobrau raffl gan Lettie Vaughan a Mary Jones ac fe'u henillwyd gan y Bon. Llwyd a Jennifer Mathias. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 16eg yn y Pantri am 7:30y. h. pan fydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Dafydd Aeron. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned a bisgedi wedi eu rhoddi gan Jennifer Mathias a Mair Spate.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Keith Thomas, Cilgwyn a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei fam, Mrs Eirwen Thomas, Llanybydder.

O Steddfod i Steddfod.

Llongyfarchiadau i Lois Jones, Blaenhirbant Uchaf sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl Eisteddfod yn y misoedd diwethaf. Dim ond megis dechrau y mae Lois ac mae'n hyfryd cael clywed am ei llwyddiant hyd yn hyn. Pob dymuniad da i ti gan obeithio y daw lwc dda eto yn y dyfodol.

Ar wellhad

Da yw deall fod Jackie Ryder, Tyngrug Ganol ar wellhad yn dilyn ei gyfnod o anhwylder ac hefyd fe dreuliodd peth amser yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis diwethaf.

Cohebiaeth Clonc

Annwyl ddarllenwyr Clonc

Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cymorth ar gyfer prosiect "Sodlau'n Siarad" a fydd yn digwydd yn 2011.

Ein gobaith yw derbyn rhoddion o esgidiau/sodlau gan 150 o ferched enwog Cymru ac wrth wneud hynny gofyn iddynt am eu hatgofion am yr Eisteddfod. Bydd y prosiect yn adlewyrchu'r ffaith fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dathlu 150 mlynedd. Bydd y sodlau yn cael eu harddangos a'u marchnata cyn yr Eisteddfod ar y we, ayyb. Yna yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam bydd arddangosfa ac arwerthiant.

Mae Merched y Wawr yn cydweithio gydag elusen Achub y Plant. Os ydych yn fodlon rhoi pâr o sodlau/esgidiau, neu yn wir hen ffôn symudol neu getris inc gallwn gasglu'n lleol. Os hoffech fwy o fanylion cysylltwch â Chanolfan Merched y Wawr ar 01970611661.

Diolch o galon am ystyried ein cynorthwyo.

Yr eiddoch yn gywir

Tegwen Morris Cyfarwyddwr Cenedlaethol

Llanfair

Cydymdeimlad

Hoffwn gydymdeimlo yn ddwys â Donald ac Iris Quan, Blaencwm, ar golli chwaer annwyl Donald, Teresa Quan, a fu farw yn sydyn iawn dros y flwyddyn newydd.

Ymddiheurwn fod y cydymdeimlad yma heb ei gynnwys y mis diwethaf.

Gwellhad

Roedd yn ddrwg gan bawb yn y pentre glywed fod Barbara Tucker, Llethr Villa heb fod yn hwylus ac wedi gorfod mynd i Hafan Deg am ofal am dair wythnos. Mae wedi dod adref erbyn hyn a mae pawb o'i ffrindiau yn dymuno iechyd gwell iddi.

Hefyd mae Harry Hartwell, Heulwen, wedi gorfod mynd i Hafan Deg am ofal dros dro. Dymunwn iechyd gwell iddo yntau yn fuan.

Mae Tim Rees, Rhiw, wedi bod yn yr ysbyty dan driniaeth yn ddiweddar ond mae wedi dod adref erbyn hyn. Dymunwn iddo wellhad parhaol.

Braf yw clywed fod Eirwyn Evans, Esgairman gynt, adref o'r ysbyty ac yn gwella ar ôl cael triniaeth ar y galon.

Sefydliad y Merched

Pleserus iawn oedd cael cyfle i dreulio noson yn jeifo dan hyfforddiant Kathy a Dave o Langybi gyda phobol o bob oedran wedi dod ynghyd. Cafwyd hwyl fawr gan bawb a chymaint eu brwdfrydedd nes i dros dri deg lofnodi o blaid cynnal rhagor o dosbarthiadau. Diolch i Sefydliad y Merched am y trefniadau ac am luniaeth arbennig fel arfer.

Cyfarfod Blynyddol

Yn ystod y cyfarfod cytunodd y rhan fwyaf o'r swyddogion i gario ymlaen i wneud eu swyddi a diolchwn yn garedig iddynt am eu holl waith. Yn anffodus fe benderfynodd Gwyneth Jones, Noyadd, roi'r gorau i'w swydd fel trysorydd, gwaith mae wedi ei gyflawni'n effeithiol dros ben yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf. Diolchwn iddi yn gynnes am ei holl waith a'i ffyddlondeb dros y blynyddoedd. Bydd y swydd bwysig yma nawr yn nwylo Claire Fisher, Cae Glas. Pob dymuniad da iddi.

Diolch

Estynnwn ddiolch i Arwyn Davies, Pentre, am ei holl waith yn trwsio a pheintio stolion newydd y neuadd. Maent y ddeniadol ac yn gysurus dros ben.

Croeso

Croeso cynnes i Helen a Gary a'u teulu, sydd newydd symud i'r tŷ newydd yn 'y City'. Maent yn dod o Abingdon, Swydd Rhydychen.

Beth sydd nesaf?

Mawrth 4ydd Cawl a Chwist; Ebrill 9fed Noson Cwis; Ebrill 16eg Ffair Crefft a Chynnyrch Lleol.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Rhodri Williams**
Oed: 22
Pentref: Cellan
Teulu: Mam, Dad a'r "Tangar Brothers".
Gwaith: Swyddog Diogelwch gyda Chwmni Chamberlain yn Dunbia Llanybydder.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Wacky Races.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Peidio sefyll tu ôl buwch sy'n codi cynffon.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Nickelback, Silver Side Up.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet ti eisiau bod ar ôl tyfu?
Gofodwr.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Yfed cwrw dad.

Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?
Yng nghanol yr haf ar ben y mynydd yng Nghellan neu ar bwys yr afon.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Gok Wan.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y bobl.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl sydd yn gyrru 4x4.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Mynd i'r dafarn leol a phrynu peint i bawb.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Pili-pala.

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Pan welais i bili-pala ddiwethaf.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan welais i dad yn yfed fy mheint.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ennill y loteri.

Pryd oeddet ti'n borcyn ddiwethaf o flaen person arall?
Strip search yn Heathrow.

Beth oedd yr eiliad falchaf i ti'n broffesiynol?
Cwrdd â Siôn Corn yn Lapland pan oeddwn yn gweithio yno.

Ac yn bersonol?
Gorffen 3 pheint o Guinness heb chwydu.

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Anghofio gofyn am rif Siôn Corn.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Guinness.

Ac i gadw'n heini?
Rhedeg i ffwrdd wrth bili-palaod.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Peidio yfed Guinness heb ben.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Peugeot 106 Quiksilver.

Beth yw dy hoff air?
Pishyn.

Beth yw dy hoff wisg?
Jîns a chrys t.

A'th hoff adeilad?
Sied ffowls.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Matt Lucas.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Hunangofiant Eddi Izzard.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Efo peint o Guinness yn yr haul.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Moshi Monsters.

Hoff gân ar dy i-pod?
Kama Chameleon – Boy George.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Top Gear.

Sawl tecst y dydd wyt ti'n hala?
10.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Gareth Thomas!

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Brokeback Mountain.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Gwallt.

Beth fyddet ti'n ei achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Play Station 3.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Going under Ground – Jam.

Beth fyddet yn ei wneud os na fyddet ti'n gwneud y gwaith hwn?
Sgïo.

Ar beth y gwnest ti orwario fwyaf?
Cwrw.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Car.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Black Lion, Red Lion, White Lion.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Mexico, Awstralia a Jersey.

Pa dri pheth yr hoffet ti eu gwneud cyn dy fod yn ddeugain?
Magi Poodles a Pugs, Cwrdd ag Eddie Izzard ac yfed 4 peint o Guinness.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Lucy Wood, Cwrtnewydd.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

2				8		9	6	
		1	6			3		
8			1				5	2
							4	
3			9		5			6
	2							
7	6				9			5
		2			3	6		
	9	8		1				4

Atebion Swdocw mis Chwefror:

6	7	3	1	8	9	5	4	2
9	8	5	4	3	2	6	7	1
1	4	2	7	6	5	8	3	9
2	6	4	3	9	1	7	5	8
5	9	1	6	7	8	3	2	4
8	3	7	5	2	4	9	1	6
3	2	6	8	4	7	1	9	5
4	5	8	9	1	3	2	6	7
7	1	9	2	5	6	4	8	3

Llongyfarchiadau i Ron Jones 14 Penbryn, Llambed a diolch i bawb arall am gystadlu: Ken Gas, Llambed; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder.

Alec Page Gof

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow, Llambed.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Pencarreg

Adferiad Iechyd

Da yw deall bod Mrs Annie Thomas, Claret House yn gwella'n foddhaol mewn cartref gofal yn Ffair Fach ger Llandeilo. Mae eich ffrindiau i gyd yn cofio atoch ac yn dymuno'r gorau i chi Annie gan fawr obeithio y byddwch yn teimlo'n tip-top yn gloi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Jamie a Sarah, Tanfron, Pencarreg ar enedigaeth merch fach. Newyddion llawen, wir, i ddechrau blwyddyn newydd. Llawer o bleser i chwi fel teulu yng nghwmni eich baban bach.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth Pauline, nith i Jennifer Evans, Blaenbydernyn. Cydymdeimlir â Jennifer, Defi John a'r teulu yn eu colled a'u galar.

Adferiad Iechyd

Yn dilyn salwch, da yw deall bod Eifion Evans, Tower Hill ar wellhad yn Ysbyty Glangwili. Brysia wella, Eifion er mwyn i ti gael mwynhau'r Gwanwyn ar y mynydd.

Gorsgoch

Llwyddiant

Mae Nia Morgans, Glwydwern wedi bod yn llwyddiannus mewn gwahanol Eisteddfodau yn ystod y misoedd diwethaf. Pob dymuniad da i ti Nia eto i'r dyfodol.

Cellan

80 oed

Dathlodd Mrs Mary Jones, Hafan ei phen-blwydd yn 80oed yn ystod mis Chwefror. Gobeithio y cewch iechyd da am flynyddoedd lawer eto.

Clwb Clonc

Mawrth 2011

£25 rhif 478 :
Mrs Joyce Williams, Pleasant Hill, Blaencwrt

£20 rhif 484 :
Mark Wilson, Llwynhelyg, Alltyblaca.

£15 rhif 205 :
Gethin Hatcher, Cefnhafod, Gorsgoch.

£10 rhif 162 :
Marna Evans, Bwthyn-y-Dolau, Llanybydder.

£10 rhif 388:
Tommy Price, Gelliwrol, Cwmann.

£10 rhif 424 :
Mrs Dorothy Thomas, Hendre Rhys, Llanarth.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Mrs Sandra Hopkins sydd wedi dechrau fel cynorthwywraig yn yr Adran Iau a dymunwn yn dda i Miss Louise Thomas yn ei swydd newydd yn Ysgol Dyffryn Teifi.

Daeth P.C Ernest Gronw atom gan siarad am wisg yr heddlu a phobl eraill sy'n ein helpu. Cafodd pawb gyfle i wisgo'r gwahanol ddillad gan gael llawer o hwyl. Edrychwn ymlaen at ymweliad arall cyn hir.

Aeth disgyblion blwyddyn 6 a bechgyn blwyddyn 5 i Ganolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn i gystadleuaeth Decathlon. Cawsant amser hwylus a da iawn chi am wneud mor dda.

Mae tocynnau Clwb Cefnogwyr yr ysgol ar werth ar ôl cyfnod o doriad. Os hoffai unrhyw un ddod yn aelod mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol ar 01559 395624 neu gyda Mrs Moira Jones ar 01559 395287. Gobeithiwn dynnu'r tocynnau cyntaf cyn y Pasg.

Rydym yn ddiolchgar i berchnogion y Swyddfa Bost am eu rhodd o £33, sef elw eu raffl Nadolig. Diolch yn fawr.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad ag Emrys Evans, Llannerch ar farwolaeth ei briod Nancy yn Ysbyty Llanelli. Gwelir ei heisiau yn fawr iawn ar yr aelwyd ac yn y gymdogaeth.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Gary ac Eirlys, Cwmderi ar enedigaeth merch fach, chwaer i Alwena ac wyres i Ifan a Mair Davies, Abercwm.

Diolch

Hoffai Carys a Kevin, Trysor, Llanllwni ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardie, anrhegion a chyfarchion a gawsom ar enedigaeth ein merch fach, Mari Lois noswyl y Nadolig. Diolch o galon i bawb.

Hefyd, dymuna Emrys Evans, Llannerch ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad, galwadau, blodau, cardiau a rhoddion ar adeg ei brofedigaeth o golli ei briod, Nancy.

Melinau Gwynt Bryn Llywellyn

Mae'n dda gweld cynifer o wynebau newydd yn dod ynghyd bob wythnos i wrthwynebu bwriadau cwmni Renewable Energy Systems (RES) i osod 21 tyrbein gwynt ar Fynydd Llanllwni, Mynydd Llanfihangel Rhos-y-corn a Mynydd Llanybydder. Mae croeso, yn naturiol, bob amser i ragor o gyfeillion yr achos ddod atom.



Mae'r Grwp Gweithredu, Achub Mynydd Llanllwni, yn cwrdd bob nos Fercher yn y Neuadd Gymunedol dan gadeiryddiaeth John Jones, Hengae. Mae ganddo flog wythnosol yn y Carmarthen Journal. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk

Yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yw bod yr aelodau'n pori drwy'r dogfennau niferus sydd wedi'u cynhyrchu gan gwmni RES dros gryn gyfnod. Mae'n waith llafurus ond rhaid darllen a phwyso pob gair a gwirio pob dim y mae'r dogfennau hyn a'r cwmni yn ei honni cyn 23 Chwefror 2011.

'Mae Mynydd Llanllwni yn rhostir agored gwyllt sydd yn rhan o dreftadaeth naturiol Cymru gyfan. A rhaid ei ddiogelu er mwyn cenedlaethau'r dyfodol' meddai John Jones. 'Petai Sir Gaerfyrddin yn colli cynefin mor bwysig â hyn ni chaem fyth faddeuant gan ein plant na chan blant ein plant'.

Mae'r cwmni, wrth gwrs, yn mynnu y byddai'r twrbeini o fantais fawr i'r ardal a'n bwriad yw gosod y cyfan a ddywedir ganddynt yn y glorian.

Er mwyn i bawb gael cyfle i ystyried beth sydd yn y fantol mae Grwp Achub Mynydd Llanllwni wedi creu delwedd dilys o dwrbein gwynt o'r maint y bwriedir ei osod ar Fynydd Llanllwni, a'i osod ochr yn ochr â'r adeilad uchaf yn y plwyf ac yn y rhan hon o Sir Gaerfyrddin. Yr adeilad uchaf yn Llanllwni yw twr eglwys y plwyf ond bydd y twrbeini saith gwaith yn uwch na hwnnw.

Bwriad RES yw gosod 21 o dwrbeini gwynt tebyg 127m/418 troedfedd o uchder ar dir amaethyddol ac ar rostir mynydd agored yng nghyffiniau Bryn Llywelyn, Llanllwni. Bwriad arall gan RES yw torri llwybrau newydd 30 llathen o ran lled ar draws y mynydd er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y melinau. Mae hyn ar ben y gwaith o ledu ffyrdd gwledig, agor ffosydd i osod ceblau ynghyd ag adeiladu gorsafoedd newidyddion.

59 troedfedd yw uchder twr yr eglwys. Corrach o'i gymharu ag anghenfil.

Pan fyddwch yn gwrthwynebu trwy lythyr, dylid nodi rhif y cais (sef E/23947) yn y llythyr a'i anfon at Eifion Bowen, Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Stryd Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LQ.

Sarn Helen

PERSON CHWARAEON Y FLWYDDYN

Mae Eileen Rees, o Glwb Rhedeg Sarn Helen, wedi cael ei choroni'n Berson Chwaraeon y Flwyddyn 2010. Dyma wobr sy'n rhoi cyfle i glybiau rhedeg gorllewin Cymru enwebu aelod gweithgar o'r clwb na roddir cydnabyddiaeth deilwng iddynt am eu gwaith diflino. Mae Eileen yn cyfrannu trwy hyfforddi'r plant a goruchwylio hyfforddwyr Lefel 1. Trwy ei hanogaeth hi, mae'r plant i gyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trac, ffordd a thraws gwlad, a hi sy'n trefnu trafnidiaeth i'r holl rasys ac yn gyfrifol am gofrestru enwau. Oherwydd ei brwdfrydedd a'i dyfalbarhad, mae rhif aelodaeth yr ieuenctid wedi cynyddu ac yn dal i ffynnu. Bu'n gyfrifol am fagu talent sawl athletwr a aeth ymlaen i gynrychioli Cymru. Mae hefyd yn helpu i drefnu rasys clwb, cofrestru enwau, casglu canlyniadau, a phrynu gwobrau ac mae'n cynorthwyo aelodau eraill y clwb yn y prif gystadlaethau, gan gynnwys Ras Gyfnewid y Castell a Marathon Eryri. Hi, heb os nac oni bai, yw arwres ddigamsyniol Clwb Rhedeg Sarn Helen.

Carwyn Thomas a enillodd ras hanner marathon Cors Caron Tregaron mewn 1 awr 15 munud 13 eiliad, 2il a 1af dynion 40 Glyn Price 1 awr 21 munud 52 eiliad, 3ydd a 2il dynion 40 Michael Davies 1 awr 22 munud 59 eiliad, 5ed a 3ydd dynion agored Daniel Hooper 1 awr 24 munud 08 eiliad, 9fed Gethin Jones 1 awr 27 munud 26 eiliad, 13 - Eric Rees 1 awr 29 munud 38 eiliad, 18 - a 1af dynion 55 Richard Marks 1 awr 31 munud 09 eiliad, 21 - Huw Price 1 awr 31 munud 40 eiliad, 22 - a 1af dynion 55 Tony Hall 1 awr 32 munud 34 eiliad, 30 - Mark Dunscombe 1 awr 35 munud 23 eiliad, 47 a 3ydd dynion 55 Murry Kisbee 1 awr 41 munud 21 eiliad, 54 a 1af menywod 50 Dawn Kenwright 1 awr 44 munud 12 eiliad, 60 - Andrew Edgell 1 awr 47 munud 09 eiliad, 67 - Gwydion Williams 1 awr 50 munud 20 eiliad, 68 - Mark Palmer 1 awr 50 munud 29 eiliad, 76 - Ormond Williams 1 awr 55 munud 21eiliad.

Ras team pursuit yn Crymych, Sarn Helen A yn ennill mewn 3 awr 25 munud 01 eiliad sef Daniel Hooper, Gethin Jones, Michael Davies, Glyn Price a Carwyn Thomas, yn 6ed tîm Sarn Helen B - Gwydion Williams Teifion Davies, Dawn Kenwright, Sian Roberts- Jones, Richard Marks mewn 4 awr 07 munud a 23 eiliad, ac yn 13 tîm Sarn Helen C, Jan Bell, Lyn Rees, Caryl Davies, Ormond Williams mewn 4 awr 41 munud a 40 eiliad.

Aberhonddu oedd lleoliad traws-gwlad cyfres Gwent, ac yn ras y bechgyn nofis - Thomas Willoughby yn gorffen yn safle 21, 32 Robert Jenkins, 33 Dafydd Lewis , 34 Daniel Willoughby, 38 Matt Small. Merched nofis - 16 Grace Page, 24 Rachel Priddey, 41 Sara Jones, 44 Delyth-Ann Jones. Dan 13 Caitlin Page yn gorffen yn 6ed, a Rhian Jones yn 18fed yn y ras dan 15. Ras y merched hŷn Ellen Page yn safle 95.

Dydd Sadwrn roedd pencampwriaeth traws-gwlad Cymru yn Llaneurgain, gogledd Cymru. Gorffennodd Caitlin Page yn y 7fed safle a Ffion Quan yn 13eg yn ras y merched dan 13, pellter o 2,800 medr.

O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Wedi prysurdeb yr wythnosau diwethaf yn arwain at ddiwrnod y Refferendwm ar bwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae golygon nifer wedi dechrau troi at yr Etholiad Cymreig a gynhelir ar 05 Mai. Fodd bynnag, rwy'n parhau i gynrychioli trigolion Ceredigion fel Aelod Cynulliad tan ddiwedd mis Mawrth, ac mae'n parhau yn gyfnod prysur iawn yn lleol ac ym Mae Caerdydd.

Yn ddiweddar, daeth newyddion i'w groesawu gan fodurwyr Ceredigion a thrigolion gogledd y sir. Cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru, Ieuan Wyn Jones AC, bod gwaith lledu a gwella darn o hewl yr A487 yng Nglandyfi am ddechrau yn fuan gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn 2012.

Mae'r darn yma o'r hewl wedi bod yn ben tost i'r rhai sy'n teithio ar hyd yr A487 ers blynyddoedd. Mae hi'n gwbl amlwg nad yw'r hewl yn gallu ymdopi dan bwysau cerbydau trwm na'r gofynion teithio cyson sydd gan fodurwyr yn yr oes sydd ohoni.

Eto ym myd trafnidiaeth, roeddwn yn siomedig iawn i glywed bod Arriva wedi penderfynu torri yn ôl ar wasanaethau bws yr X40 yn ddirybudd ddiwedd mis Ionawr. Fe gysylltais yn syth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch hyn, ac yn dilyn ei ymyrraeth ef, fe ailgyflwynwyd y gwasanaethau a gollwyd o ganol mis Chwefror ymlaen. Mae gwasanaeth yr X40 – ynghyd â gwasanaethau'r X50, X32, X41 a'r 550 – yn bwysig iawn am ei fod yn cysylltu cymunedau gwledig Ceredigion ac yn rhoi'r cyfle i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio'r car o hyd.

Yn ystod mis Chwefror, fe deithiais draw i Frwsel i gyfarfod a oedd yn trafod dyfodol taliadau'r Polisi Amaeth Cyffredinol. Rwy'n gwbl argyhoeddedig ei bod hi'n hanfodol bod y taliadau yma'n parhau – er gwaethaf ymdrechion llywodraeth San Steffan i ddadlau yn eu herbyn – er mwyn ceisio sicrhau dyfodol hirdymor i'n sector amaethyddol.

Llanwnnen

18 oed

Yn ystod y mis dathlodd Gwawr James, Castell Du ei phen-blwydd yn 18oed. Gobeithio fod y dathliad wedi mynd yn iawn a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Pennaeth Cynorthwyol

Yn ystod y mis apwyntiwyd Mr Pete Ebbsworth, Brynamlwg yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Gynradd Llanwnnen. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Mai eleni – rhwydd hynt iddo gyda'r gwaith.

Ysgol Llanwnnen

Ddiwedd mis Ionawr, bu Ellen Jones yn cynrychioli'r ysgol yn ail rownd y gystadleuaeth CogUrdd 2011. Bu Ellen wrthi yn brysur iawn yn ymarfer ei chwscws, smwddi a'i fflapjacs ar gyfer y gystadleuaeth a oedd yn cael ei beirniadu gan Mr Gareth Richards, Y Goedwig.

Ddechrau mis Chwefror, croesawyd Cylch Meithrin Drefach am fore cyfan i'r ysgol i ddefnyddio adnoddau a dosbarth allanol y Cyfnod Sylfaen. Roedd disgyblion dosbarth Mrs Llwyd wedi ysgrifennu a pharatoi drama ar eu cyfer. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn eu cwmni. Dewch 'nôl atom yn glou.

Croesawyd oen swci i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen gan eu bod yn astudio'r thema 'pethau byw.' Daeth Rhys Tynllyn â'r oen i'r ysgol gan ddangos i weddill y plant sut yr oedd yn mynd ati i'w fwydo. Bu'r plant wrthi'n brysur yn ei fesur a'i fwydo a nawr maen nhw'n edrych ymlaen i'w groesawu yn ôl i'r dosbarth nes 'mlaen yn y gwanwyn i weld faint y bydd e' wedi tyfu!

Bu tîm pêl-droed yr ysgol yn cynrychioli cylch Llambed yng nghystadleuaeth Pêl-droed pum pob ochr Ceredigion lawr yn Llangrannog. Cafwyd diwrnod o gystadlu brwd rhwng saith tîm o'r sir. Da iawn tîm Ysgol Llanwnnen am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth a diolch i Mr Ian Morgan am helpu gyda'r hyfforddi.

Cyn gwyliau hanner tymor fe apwyntiwyd pennaeth cynorthwyol newydd i'r ysgol Byddwn yn croesawu Mr Pete Ebbsworth i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd ac rwy'n siŵr y bydd e'n hapus iawn yn ein cwmni.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror ar nos Lun y 7fed yng Ngwesty'r Grannell. Cyn trafod materion y mis, cydymdeimlodd y llywydd, Mrs. Gwen Davies, â Mrs. Averina Lewis wedi iddi golli brawd, chwaer a chwaer yng nghyfraith yn ystod y mis diwethaf. Bu Averina yn aelod gweithgar o'r mudiad yn Llanwnnen am dros ddeugain mlynedd ac mae'r aelodau yn dymuno yn dda iawn iddi yn ei chartref newydd yn Ffos-y-ffin.

Mrs. Patricia Storr o Gaerwedros oedd ein gwestai ac roedd ganddi gasgliad enfawr o ffaniau. Bu wrthi yn eu casglu ers blynyddoedd ac mae hefyd wedi derbyn llawer un yn anrheg. Roedd ganddi ffaniau o bob rhan o'r byd a phob un â'i stori ddiddorol.

Diolchwyd yn gynnes iddi gan Mrs. Gwen Davies. Enillydd cystadleuaeth y mis oedd Mrs. Ceinwen Roach.

Dathlu Gŵyl Ddewi fyddwn ni ym mis Mawrth gyda swper yng Nghegin Neuadd y Dref, Llanbed.

Gohebiaeth Clonc

Annwyl Syr/Fadam

Amgaeaf lythyr i roi yn eich papur bro. Mae'n hysbysu rhai o bobl ifanc eich ardal am gyfle anhygoel.

Mae Cwmni Telesgop yn cynhyrchu cyfres i S4C o'r enw 'Newid Byd' - cyfres fydd yn cynnig y cyfle i 8 plentyn rhwng rhwng 14-16 oed ymweld â gwlad dramor am bythefnos i gyflawni gwaith gwirfoddol, dan ofal arweinydd profiadol. Rydym yn chwilio am bobl ifanc addas, sy'n gwneud rhywfaint o waith gwirfoddol yn barod ac sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Mi fydd y gystadleuaeth yn cael ei lansio ar y 7fed o Fawrth ac yn cau ar yr 28ain o Fawrth, 2011.

Yn gywir, gyda diolch,

Miss Mererid Wigley

Cynhyrchydd, Newid Byd., Cwmni Teledu Telesgop.

Newid Byd, Telesgop, E.thos, Heol y Brenin, Abertawe, SA1 8AS

newidbyd@telesgop.co.uk 01792 824567

Yn y Gegin gyda Gareth

Crempogau Clonc!

Rwyf wrth fy modd â 'Dydd Mawrth Ynyd' neu ddiwrnod gwneud 'Crempog'. Yn y Calendr Cristnogol, byddai'r gwragedd yn defnyddio'r wyau, y braster a'r llaeth ac yn gwneud y crempogau a hynny yn baratoad ar gyfer y deugain niwrnod o ympryd sy'n dechrau drannoeth. Dyma rysait y byddaf yn ei defnyddio bob blwyddyn ac sy'n ffefryn mawr. Mae lemwn a siwgr yn gwmni da i'r grempog, neu gellwch arbrofi â llenwadau mwy mentrus.

Pob lwc i chi wrth goginio'r grempog,

Gareth.

Crempog Cegin Clonc.

Cynhwysion –

150 gm o fflŵr plaen
75 gm o siwgr mân
1 ŵy ac un melyn ŵy
300 ml o laeth cyflawn
2 llond llwy fwrdd o fenyn wedi toddi
Diferyn neu ddau o 'rin fanila' (Vanilla Essence).

Dull –

1. gwagrwch y fflŵr i fasn mawr ac ychwanegwch y siwgr gydag ychydig halen.
2. gwnewch bant ynghanol y fflŵr i dderbyn yr wyau. Cymysgwch â llwy bren ac ychwanegwch y llaeth – ychydig bach ar y tro.
3. ychwanegwch y menyn a'r 'rhin fanila' a gadewch y cyfan am 10 munud.
4. toddwch ychydig fenyn mewn padell ffrio, rhowch ar y gwres ac yna ychwanegwch y gymysgedd; coginiwch am ½ munud, trowch a choginiwch am ½ munud arall.
5. gweinwch gyda siwgr a lemwn.

Llenwadau eraill.

Rhowch ddarnau o 'ham' ar y grempog, gorchuddiwch â chaws wedi'i falu. Rholiwch y grempog a rhowch yn y ffwrn i gynhesu.

Coginiwch ddarnau o afal mewn menyn a mêl. Defnyddiwch i lanw'r grempog. Rholiwch y cyfan a gweinwch gydag hufen.

"Anrheg i Mam"

Gan edrych ymlaen at Sul y Mamau ar y 3ydd o Ebrill, rwyf wedi creu anrheg y medrwch ei harchebu o 'Cegin Gareth'.

Dyma i chi gynnwys y pecyn.

"Pecyn i mam".

1 pot o farmaled i frecwast,
1 pot o Jam i de,
1 pot o bicl i swper
Bisgedi cartref a siocled i'w mwynhau drwy'r dydd.

Y cyfan mewn pecyn am £10. Os am archebu, ffoniwch Gareth ar 01570 422313

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎ **01570 423135**
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Dirgelwch yr CFfI a'r 'clybiau coll'

Erbyn i hwn ymddangos, mi fydd pawb yn gwybod pwy fydd wedi ennill Hanner Awr Adloniant y Ffermwyr Ifanc.

Wrth i fi sgrifennu, mae gwyl adloniant fwya' Ceredigion – os nad Cymru – wedi cyrraedd yr hanner ffordd.

O ardal Clonc, mae yna ganmoliaeth mawr eisoes i berfformiad Llanwenog ac mae Bro Dderi i ddod. Yn Sir Gâr, roedd Dyffryn Cothi, Llanllwni a Chwmann wrthi hefyd a'r ymdrech a'r bwrlwm sydd ynghlwm â'r gystadleuaeth yn rhyfeddol.

Mae'n siwr y byddai sylfaenwyr y mudiad wrth eu bodd, er yn synnu rhywfaint. Mae Ffederasiwn y clybiau yng Ngheredigion yn dathlu'i 70 mlwyddiant eleni ac mae'r mudiad wedi newid llawer ers 1941. Ond, eto, mae'n dal yr un peth.

Mae'r sir wrthi'n rhoi llyfr at ei gilydd a fydd yn dangos sut y mae newid a pharhad yn gallu mynd law yn llaw ac mae yna waith mawr ar droed yn casglu lluniau a gwybodaeth – mi fydd yna sesiwn luniau eto yn Felin-fach ar y 5ed o Fawrth.

Ond mae yna apêl hefyd – am wybodaeth am rai o'r clybiau a fu fyw am ychydig ond sydd wedi diflannu bellach. Rhai fel Llanwnnen a Silian a llu o rai eraill.

Yng nghanol y rhyfel, pan oedd petrol yn brin a theithio'n anodd, mae'n ymddangos bod yna duedd i gael clwb ym mhob pentre' bach; unwaith y daeth pethau'n haws, fe wnaethon nhw ddechrau ymuno a chrynhoi.

Mi fydd hynt a helynt clybiau'n dangos hefyd sut y mae patrwm cymdeithas wedi newid yng nghefn gwlad ac mae'n siwr bod digonedd o straeon a gwybodaeth am y 'clybiau coll' – yn rhywle.

Mae hyd yn oed copi o raglen clwb yn gallu bod yn hynod o ddiddorol ac yn dweud cyfrolau, nid dim ond am y mudiad ond am gefn gwlad Cymru ei hun, a hyd yn oed am y system addysg.

Yn y dyddiau cynnar, roedd llawer o'r sesiynau'n ymwneud â dysgu sgiliau a chrefftau. Roedd y dynion yn cael dysgu am hwsmonaeth a thyfu cnydau (gan dynnu llawer ar arbenigwyr y Fridfa Blanhigion a'r Brifysgol yn Aberystwyth) a'r merched yn dysgu hyd yn oed sut i osod bwrdd.

Yng nghyfnod y rhyfel, roedd hi'n amlwg bod yna bwyslais ar bethau darbodus, sut i wneud y gorau o bethau, fel gwneud cordyn beinder. Ac roedd datblygiadau newydd yn amlwg hefyd – sut i dyfu silwair, er enghraifft – pan nad oedd y gair Cymraeg wedi'i ddyfeisio hyd yn oed.

Dw i'n cofio fy nhad yng nghyfraith – Defi Fet – yn dweud ei fod yn hollol sicr bod y Clybiau Ffermwyr Ifanc wedi gwneud cymaint â neb i godi safonau ffermio, gofal anifeiliaid a glendid yn nghefn gwlad Ceredigion.

Erbyn heddiw, er bod llawer o hyfforddiant gwerthfawr yn digwydd o hyd, mae yna fwy o golegau a chyrsiau ffurfiol. Mae pwyslais y mudiad wedi symud rhywfaint at adloniant a chymdeithasu.

Mae hynny eto'n arwydd o newid, ac eto dydi o ddim. Yn yr 1940au, roedd y mudiad yn cwrdd â'r galw mwya' yng nghefn gwlad ar y pryd. Roedd yna anghenion arbennig yng nghyfnod rhyfel ac anghenion gwahanol, ond yr un mor bwysig, wrth geisio dod tros yr effaith.

Bellach, yn ardaloedd gwledig Ceredigion a Sir Gâr, yr angen mawr ydi creu'r cyfle a'r awydd i bobol ifanc aros yma neu ddod yn ôl. Does gynnon ni ddim adnoddau mawr i ddenu, ond mae gynnon ni ddiwylliant, hwyl a'n cymdeithas ein gilydd ac, i bobol ifanc, CFfI ydi'r cyfrwng amlyca' i gyd.

Yn drawiadol iawn, wrth i ddiddordebau'r mudiad newid ychydig, mi newidiodd yr iaith hefyd, nes dod fwy neu lai'n gwbl Gymraeg. Mwy na chyd-ddigwyddiad.

Does dim llawer pwysicach heddiw na chreu cyfleoedd naturiol i fwynhau trwy'r Gymraeg a rhoi cyfle i'r bobol a fydd yn cynnal y diwylliant hwnnw yn y dyfodol.

• Os oes gan urnhywun wybodaeth am 'glybiau coll' ardal Clonc, gallwch gysylltu efo fi ar 01570 480526 neu efo Manon Richards, Lowtre ar 01570 480279.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Clecs y Coleg

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi penodi'r Athro D. Densil Morgan, Pennaeth Ysgol Diwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd i'r swydd newydd o Brofost ar gampws Llanbedr Pont Steffan. Mae Mr Gwilym Dyfri Jones, Deon y Gyfadran Addysg a Hyfforddiant, wedi ei benodi i'r un swydd ar gampws Caerfyrddin.

Fel profostiaid campws Llambed a Chaerfyrddin, byddant yn cynrychioli'r Is-Ganghellor mewn materion cyhoeddus ac academaidd, yn hyrwyddo gweithgareddau ar y campws ac yn datblygu'r berthynas rhwng y Brifysgol a'r gymdogaeth leol.

Brodor o Dreforys, Cwm Tawe, yw'r Athro Morgan, a addysgwyd ym Mhrifysgolion Bangor a Rhydychen, ac sydd wedi ysgrifennu yn helaeth ar hanes crefydd yng Nghymru. Ymhlith ei gyhoeddiadau yw The Span of the Cross: Christian Religion and Society in Wales, 1914-2000 (ail arg. 2011), Wales and the Word: Historical Perspectives on Welsh Identity and Religion (2008) a dwy gyfrol yn y gyfres 'Dawn Dweud', sef Pennar Davies (2003) a Lewis Edwards (2009). Cyrhaeddodd Lewis Edwards y rhestr hir ar gyfer 'Llyfr y Flwyddyn' Cyngor y Celfyddydau 2010.

Mae hefyd yn aelod o'r Ganolfan Uwchefrydiau Diwinyddol, Princeton, UDA, ac mae wedi ysgrifennu ar grefydd gyfoes a gwaith y diwinydd o'r Swistir Karl Barth. Mae'n Bennaeth Ysgol Diwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd Prifysgol y Drindod Dewi Sant er Mis Medi 2010. Cyn hynny bu'n ddarlithydd, yn uwch-ddarlithydd ac yn Athro yn yr Ysgol Diwinyddiaeth, Prifysgol Bangor, ac yn Bennaeth cyntaf Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau yno.

Meddai'r Athro Morgan: 'Rwy'n ymwybodol o her y rôl newydd hon, ac yn awyddus iawn i greu cysylltiadau newydd â bywyd y gymdogaeth leol. Mae'n gyfnod hynod gynhyrfus ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwasanaethu ein bröydd yn ogystal â'r gymuned academaidd ehangach.'

Yn enedigol o Aberystwyth, addysgwyd Gwilym Dyfri Jones ym Mhrifysgolion Bangor ac Aberystwyth ac ym Mhrifysgol California Berkeley, UDA.

Fe'i penodwyd yn Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod yn 1992 ac yn Bennaeth Adran y Gymraeg y Coleg yn 1997. Ddwy flynedd yn ddiweddarach fe'i penodwyd yn Bennaeth y Gyfadran Addysg a Hyfforddiant a chyda sefydlu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gynt eleni, fe'i penodwyd yn Ddeon y Gyfadran honno. Law yn llaw â'i rôl fel Deon, ef hefyd sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu addysg Gymraeg o fewn y Brifysgol.

Meddai'r Athro Medwin Hughes, Is-Ganghellor y Brifysgol:

'Daw'r Athro Morgan a Mr Jones, ill dau â phrofiad academaidd a gweinyddol neilltuol i'r swyddi arweinyddol newydd hyn. A daw eu cyraeddiadau fel ysgolheigion ac addysgwyr a'u hymrwymiad i lwyddiant myfyrwyr ag egni newydd i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae addysg uwch yn newid ac rydyn ni'n barod am yr her a ddaw yn sgil hynny. Rydyn ni eisoes yn gweithio gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe a cholegau addysg bellach Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion i greu prifysgol sector ddeuol a fydd yn cynnig cyfleon sylweddol o'r newydd i ni. Mae penodiadau anrhydeddus yr Athro Morgan a Mr Gwilym Dyfri Jones fel Profostiaid fel rhan o'n model colegol yn ein galluogi ni i gynyddu a datblygu ein proffil academaidd yn ogystal â chyfannu at les economaidd a diwylliannol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'.



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone:
01545 574187

E-bost/E-mail:
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Rwy'n siŵr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? 'Dw'i wrth fy modd yn gwylio'r plant ar y teledu yn cystadlu.

Unwaith eto'r mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio. Llongyfarchiadau i bawb ond yn enwedig i Iestyn Evans a Tomos Davies o Lanybydder, Lleucu Angharad Rees o Benffordd, Jenna Simmonds o Gwmann, Betsan Mai Davies o Landysul ac Ellie Lona Gorman o Aberystwyth. Ond mae llun yn dod i'r brig sef un lliwgar Manon Williams, Fferm Tyglyn, Ciliau Aeron.

Erbyn hyn mae lliwiau hyfryd ar hyd y cloddiau gyda sawl lili wen fach yn mentro mas i'n gweld ni ac ambell i Genhinen Pedr. A wisgoch chi Genhinen Pedr ar ddiwrnod Gŵyl Dewi? Wel beth am fynd ati i liwio llun y Cennin Pedr sy'n tyfu tu allan i dŷ Lincyn Loncyn. Cofiwch ei ddanfon yn ôl ataf erbyn dydd Gwener, Mawrth 25ain.

Hwyl am y tro



Enillydd y mis!

Manon Williams



Enw:

Cyfeiriad:

Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed

Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref eleni.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerâu digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Mawrth, rydym yn chwilio am luniau'r Gaeaf. Ac yn y rhifynau nesaf bydd angen lluniau i gynrychioli'r tymhorau eraill

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau. Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i cystadleuaeth@clonc.co.uk Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw:
Dydd Iau 24ain Mawrth.

Cerdd fuddugol Eisteddfod Yr Ysgol Gyfun

Ymweliad

Tawelwch,
Tywyllwch mud
ym mherfedd nos.

Neb o amgylch y car.
Neb ar lawr yn y tŷ.
Neb yn crwydro'r pentref.

Amser gweithredu.
Y nerfau'n troi'n gyffro,
fy mol yn gwingo,
hyder yn llifo.
Cynnwrf heintus, hudolus.

Codi'r brêc,
Rhyddhau'r allwedd,
Clep gofalus i'r drws.
Di-euog cyn gadael y car.
Menig du yn arfau meddal.

Anelu am y ty …
Ysgafndroedio'r llwybr llydan.
Lladd y dail crensiog, eu gwasgu'n deilchion dan draed.
Diawlo nhw o dan f'anadl am wneud y fath swn.
Hwy, yr heddlu cudd,
yn fy nghwestiynu â phob cam.

Petruso,
Myfyrio,
Drwgdybio,
Cachgio.

Troi tua thre.

1af – 'Gwawr' – Carwen Richards – 12D – Dulas

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

Gwasanaeth Casglu Gwastraff Masnachol Newydd

Am wasanaeth dibynadwy a chost effeithiol ar gyfer eich holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:
01570 421421

Gwasanaeth Bin ar Olwynion Newydd
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421

Nadolig Llawen.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

CLONC

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.
Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Cartrefi'r Cwm Cyf

GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS



CYFLENWI LLORIAU PREN CALED A'U GOSOD

CYFLENWI CEGINAU AC YSTAFELLOEDD YMOLCHI A'U GOSOD

FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL

07814 027849

Ar nos Fawrth 1 Chwefror fe gynhaliwyd noson cyflwyno arian i achosion da CFfI Llanllwni. Braf oedd gweld cynifer o aelodau yno i drosglwyddo'r arian a gasglwyd yn ystod y flwyddyn. Ar ôl flwyddyn brysur codwyd swm o £1579.84 yn ein Sioe a Threialon Cŵn Defaid eleni lle cyflwynwyd i Uned Dialysis, Ysbyty Glangwili. Cyfrannwyd cyfanswm y casgliad sef £48.92 o'r Cwrdd Diolchgarwch i goffrau'r clwb a chyflwynwyd arian y Canu Carolau o £476.56 i Feddygfa Llanybydder.

Bu'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Hanner awr Adloniant y Sir hefyd.

Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr yn mwynhau diwrnod hwyl y Gymraeg.

Gorau Arf, Arf Dysg

Aneurin a Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder a'u hwyrion Daniel a Sam Garside yn cyflwyno Tlws y Goron er cof am Susan Davies, ar gyfer Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Gyfun Llambed i 'r Pennaeth Dylan Wyn.

Mary Jones, cogydd Ysgol Ffynnonbedr a enillodd dros Gymru yng nghystadleuaeth Cogydd y Flwyddyn gyda Elonwy James; Heulyn Roderick, Dirprwy Bennaeth; Gill Jones; Llinos Jones, Dirprwy Bennaeth, a'r disgyblion Sara Elan Jones a Joseph John Saunders.

Adran Llambed yn derbyn medalau am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth cwis yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd pymtheg o dimau'n cystadlu. Da iawn chi.

Tri o ddisgyblion Ysgol Ffynnonbedr yn derbyn medalau am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth nofio chwaraeon anabledd Cymru yn ddiweddar. Da iawn Oskar, Shania a Kian.

Disgyblion Ysgol Llanwnnen yn dysgu sut i fwydo oen swci Rhys Tynllyn.